# Dyfodol y Sector Gwirfoddol

## CYD-DDYLUNIO GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL I'R SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU 2030 I GEFNOGI FFORDD O FEDDWL STRATEGOL

Cyhoeddwyd gan CGGC a Futurice, Medi 2021



futurice

WcVA
CgGC

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ffotograff gan Alexander Dummer o Pexels

# Cyhoeddiad

Wedi'i gyd-awduro a'i gyhoeddi gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
Rhif elusen gofrestredig 218093
Pencadlys
Tŷ Baltic,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd,
CF10 5FH

**E-bost:** Cysylltwch â thîm polisi CGGC ynghylch yr 'Ymarfer Dyfodol' i help@wcva.cymru
**Gwefan:** wcva.cymru
**Ffôn:** 0300 111 0124

Wedi'i gyd-awduro a'i ddylunio gan Futurice
**E-bost:** co-create@futurice.co.uk
**Gwefan:** futurice.com

## YR AWDURON

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)** yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru. Mae CGGC yn bodoli i alluogi sefydliadau gwirfoddol i wneud gwahaniaeth gyda'i gilydd. Fe wnaeth aelodau o dîm CGGC gyd-awduro'r prosiect a'r adroddiad hwn gyda phrosiect partner Futrice. Roedd yr aelodau hyn o'r tîm hefyd yn gyfrifol am arwain a hwyluso'r prosiect.

- **Anna Nicholl –** Pennaeth Strategaeth a Datblygu'r Sector yn CGGC
- **Suzanne Iuppa –** Swyddog Cynllunio Strategol yn CGGC

Mae **Futurice** yn asiantaeth technoleg, digidol a sefydliadol arloesol gyda gwreiddiau Nordig. Maent yn cefnogi sefydliadau i greu a datblygu dyfodol mwy cadarn gyda'i gilydd. Mae eu meysydd arbenigedd yn cynnwys rhagolwg o'r dyfodol, offerynnau a methodolegau cyfranogi yn y dyfodol a ddefnyddiwyd yn y prosiect hwn. Roedd yr aelodau hyn o'r tîm hefyd yn gyfrifol am arwain a hwyluso'r prosiect.

- **Eloise Smith-Foster –** Uwch Ddylunydd Gwasanaeth a Dyfodolwr yn Futurice
- **Tom Castle –** Pennaeth Strategaeth a Dyfodolwr yn Futurice

## CYFRANOGWYR YMARFERION DYFODOL

Diolch i bawb a gyfranogodd yn y prosiect hwn drwy gyfweliadau manwl, gweithdai, sgyrsiau, adborth ac 'Arolwg cymuned sector gwirfoddol Cymru – Dyfodol CGGC' rhwng mis Mai a mis Mehefin 2021. Rydym yn gwerthfawrogi eich amser a'ch cefnogaeth i wireddu'r prosiect hwn. Mae eich cyfraniad hollbwysig wedi siapio allbynnau'r prosiect yn uniongyrchol, gan gynnwys hadau newid, gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a chamau gweithredu awgrymedig.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| T3. | RHAGAIR |
| T5. | CRYNODEB GWEITHREDOL |
| T7. | 1. CYFLWYNIAD |
| T13. | 2. GWYBODAETH AM YR YMCHWIL |
| T19. | 3. HADAU NEWID |
| T45. | 4. GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL 2030 |
| T51. | 5. SYNIADAU CAMAU GWEITHREDU CYFRANOGWYR |
| T56. | 6. Y CAMAU NESAF A CHYMRYD RHAN |
| T60. | 7. DIOLCHIADAU |
| T65. | 8. ÔL-NODIADAU |

# Rhagair

### Anna Nicholl, Pennaeth Strategaeth a Datblygu'r Sector yn CGGC

Diben CGGC yw galluogi sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd. Yn y cyfnod cythryblus presennol, mae'n rhaid i lawer o'n hegni ganolbwyntio ar y presennol. Ond mae'n hollbwysig hefyd ein bod yn gwneud amser i ddychmygu'r dyfodol rydym am ei weld. Nid dim ond ceisio mynd i'r afael â'r hyn sy'n debygol neu'n bosibl, ond creu gweledigaethau cadarnhaol ar gyfer ein dyfodol a chynllunio sut y gallwn gyflawni hynny gyda'n gilydd.

Mae'r ansicrwydd a'r newid presennol yn golygu ei bod yn bwysicach bod sefydliadau gwirfoddol sy'n seiliedig ar werthoedd yn cyfranogi'n weithredol i siapio dyfodol cymdeithas. Gall y dulliau gweithredu yn yr adroddiad hwn helpu i'n grymuso i wneud hyn. Bydd CGGC yn defnyddio'r canfyddiadau i ystyried sut y gallwn alluogi sefydliadau gwirfoddol i helpu i gyflawni'r dyfodol hwn gyda'n gilydd.

### John Gallanders, Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) a Chynrychiolydd Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Mae'n bleser gennyf fod yn rhan o Ymarfer Dyfodol y comisiynodd CGGC gan Futurice. Ni fu amser gwell erioed na nawr i fod yn edrych tua'r dyfodol ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru a sut y gall CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol fynd i'r afael â, nid yn unig, hen heriau (cyn pandemig Covid) ond hefyd y tirlun newydd sy'n cael ei ffurfio o ganlyniad i'r pandemig.

Mae'r gofynion newidiol gan y cyhoedd a mudiadau wedi golygu newid cyflym o ran y ffordd y darparwyd llawer o'n gwasanaethau a'n cymorth. Mewn cyfnod o nifer o lefelau o ansicrwydd, mae Ymarfer Dyfodol wedi creu amser a gofod i ddod â rhanddeiliaid ynghyd ac i ddatblygu meddwl llif rhydd o ran sut i gynllunio ar gyfer 'normal newydd' ansicr iawn.

Bydd ein gwerthoedd traddodiadol yn y Trydydd Sector yn parhau i fod yr un peth ynghyd â'n hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae natur gadarn Cefnogi Trydydd Sector Cymru a mudiadau eraill dros y 18 mis diwethaf wedi cynhyrchu lefel uchel o gydnabyddiaeth ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru ar lefel sirol, lefel genedlaethol, ac ar lefel y Deyrnas Unedig sef rhywbeth y mae'n rhaid i ni adeiladu arno a sicrhau nad ydym yn dychwelyd i'r hen drefn a fu cyn y pandemig.



Mae Ymarfer Dyfodol wedi galluogi'r amser a'r gofod i ni dderbyn bod gan bob un ohonom ni heriau i'w goresgyn sy'n mynd y tu hwnt i gylchoedd cyllid sydd, yn aml, mor fyr nad oes modd eu defnyddio er mwyn mynd i'r afael â gweledigaeth ar gyfer y tymor hirach. Fel y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae angen i'r Trydydd Sector edrych y tu hwnt i gylch gwleidyddol 5 mlynedd ar lefel genedlaethol a lefel leol a dechrau ymrwymo i weledigaeth ar gyfer y tymor hirach a fydd yn mynd i'r afael â newid cymdeithasol ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig, a'r tymor hirach gan blannu'r Trydydd Sector yn gadarn ym mhob lefel o Gymdeithas Sifil.

### Sophie Howe, Comisiynydd Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Mae mudiadau sector gwirfoddol a gweithredoedd cymunedau lleol ar draws Cymru yn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau llesiant y cenedlaethau i ddod. Mae'r adroddiad hwn yn gosod gweledigaeth ymgysylltiol o ddyfodol lle y mae cydlyniant cymunedol, gwirfoddoli, a gweithredu cymdeithasol wrth galon y gwaith o sicrhau ein bod ni'n gadael y byd yn lle gwell nag yr oedden ni wedi'i dderbyn.



**'Rydym yn gobeithio y bydd y byd yn gwneud yr hyn mae Cymru'n ei wneud heddiw yn y dyfodol.'**

**'Gweithredu, yn fwy na geiriau, yw'r gobaith ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.'**

- Nikhil Seth (Cyn-bennaeth Datblygu Cynaliadwy yn y Cenhedloedd Unedig) ar ei ymweliad i Gymru yn 2015

Ffotograff gan Monstera o pexels

# Crynodeb Gweithredol

Gyda chefnogaeth hwyluso gan CGGC a'n partner Futurice, dros gyfnod o dri mis o fis Mai i fis Gorffennaf 2021 fe wnaethom gydweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i gyd-gynllunio gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru.

## AMCANION A DULL GWEITHREDU

Bydd canfyddiadau'r ymarfer hwn yn ffurfio rhan o adolygiad strategol CGGC yn 2021 ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at ei waith cynllunio strategol. Bydd partneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn ei ddefnyddio hefyd, ac maen nhw'n adolygu eu cynllun busnes pum mlynedd yn 2021. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r ymateb i adroddiad Adfer Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a'i argymhelliad i adolygu anghenion cefnogaeth yn y dyfodol er mwyn i'r sector ffynnu yng Nghymru. Hefyd, y bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn ddefnyddiol i ystyriaethau strategol sefydliadau eraill, a darparu enghraifft arall o sut y gellir defnyddio'r pecyn offer Adeiladu Dyfodol Gwell yn ymarferol.

Roedd y prosiect hwn yn cyfuno dulliau o ddylunio cyd-ddylunio gwasanaethau a rhagolwg o'r dyfodol. Roedd yn rhoi pobl fel elfen ganolog y gwaith drwy ymchwil sylfaenol manwl a gweithdai cyfranogol. Mae methodoleg rhagolwg o'r dyfodol yn helpu pobl i feddwl yn y tymor hwy, a chefnogi dulliau creu strategaethau mwy cadarn a cydnerth a hynny mewn byd sy'n gynyddol gyfnewidiol, ansicr a chymhleth.

## GWYBODAETH ALLWEDDOL

Roedd cyfranogwyr y prosiect yn gysylltiedig â 70 a mwy o sefydliadau gwahanol o blith sefydliadau amrywiol y sector gwirfoddol ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â'r sector cyhoeddus a phreifat a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod fod Cymru'n wlad amrywiol, gyda llawer o ddiwylliannau, daearyddiaeth, ieithoedd, anghenion a phrofiadau byw. Roeddent yn awyddus i hyn gael ei adlewyrchu yn nyfodol y sector gwirfoddol drwy well cynhwysiant a chynrychiolaeth amrywiol.

Bu'r cyfranogwyr yn cyfleu gweledigaethau ar gyfer y dyfodol, a oedd yn sylfaenol wahanol i gymdeithas heddiw. Roedd aliniad gan y mwyafrif â dyhead i Gymru fod yn gymdeithas fwy cyfiawn, gwyrdd, cydnerth, gofalgar, a oedd yn canolbwyntio ar les a chymdeithas, lle mae gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol yn ganolog ac yn cael ei werthfawrogi.

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod effaith ddifrifol y pandemig, a'r potensial y gallai gael effaith negyddol am flynyddoedd i ddod. Roedd eisoes wedi achosi heriau niferus, ac wedi arwain at fwy o anghydraddoldeb, ansicrwydd ariannol, iechyd a lles gwael. Roedd dyhead i gefnogi adferiad tymor byr mewn ffyrdd sy'n arwain at y weledigaeth tymor hwy ar gyfer cymdeithas a'r sector.



Roedd gweledigaeth 10 mlynedd uchelgeisiol wedi'i chynhyrchu, yn seiliedig ar fewnbwn sylfaenol a mewnbwn y cyfranogwyr, a fydd yn galw am gamau gweithredu a chydweithrediad gan bartneriaid ar draws y sectorau.

## ALLBYNNAU

Y prif allbynnau o'r prosiect hwn yw crynodeb o dueddiadau perthnasol yng Nghymru y dylai'r sector gwirfoddol fod yn ymwybodol ohonynt, rhestr o 'hadau newid' sy'n darparu rhagolwg o ddyfodol posibl, dyfodol a ffefrir a dyfodol cadarnhaol, sy'n seiliedig ar fentrau ysbrydoledig sydd eisoes ar waith yng Nghymru, yn ogystal â mewnbwn uniongyrchol gan gyfranogwyr.

Cafodd yr hadau newid eu coladu i greu un weledigaeth arweiniol ddelfrydol ond credadwy sy'n cynrychioli'r byd yr hoffai'r cyfranogwyr ei weld ymhen degawd. Gall y weledigaeth hon lywio syniadau a chamau gweithredu i'r sector gwirfoddol a'i bartneriaid: mae gweithdai cyfranogol wedi helpu i gyfleu sut i gydweithio i wireddu'r weledigaeth. Mae'r camau gweithredu a awgrymwyd gan y cyfranogwyr wedi'u crynhoi yn agos at ddiwedd yr adroddiad.

## Y CAMAU NESAF

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio bod yn adnodd i ysbrydoli a dysgu ohono, yn ogystal â bod yn sbardun ar gyfer mwy o sgyrsiau cyffrous a chysylltiadau cadarnhaol ar draws y sector gwirfoddol a thu hwnt. Mae angen diolch yn fawr i'r holl gyfranogwyr am eu cyfraniadau gwerthfawr.




Y darlun drwy garedigrwydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

# 1. Cyflwyniad

## CEFNDIR, PROSES A METHODOLEG Y PROSIECT

**Côn y Dyfodol: Nodi mathau o ddyfodol a ffefrir**




**Uchod:** 'Côn y dyfodol', sy'n dangos y sbectrwm o syniadau am y dyfodol – o'r posibl ond llai tebygol i senarios tebygol iawn yn y dyfodol. Amcan y prosiect hwn oedd nodi'r mathau a ffefrir, credadwy ar gyfer y dyfodol o safbwynt y sector gwirfoddol yng Nghymru.
**Ffynhonnell: Pecyn Offer Creu Dyfodol Darbodus Futurice 2.0**



# Pam ein bod wedi gwneud y gwaith hwn

Mae CGGC wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i edrych ar sut y gall sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru helpu i lunio dyfodol gwell yn ystod yr adferiad o COVID-19, yn ogystal â sut y gall y sector ddatblygu ei wydnwch, addasu a ffynnu yn y dyfodol.

Wedi'i hwyluso gan ein partner Futurice dros gyfnod o 3 mis, mae aelodau'r sector gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat wedi cyfrannu i gyd-gynllunio gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r weledigaeth hon yn ceisio cynrychioli a chrynhoi uchelgeisiau, dyheadau a gobeithion y grwpiau amrywiol hyn fel un Seren y Gogledd gyd-gysylltiedig y gall y sector gwirfoddol ogwyddo tuag ati.

Bydd canfyddiadau'r ymarfer hwn yn ffurfio rhan o adolygiad strategol 2021 CGGC ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynllunio strategol. Y nod yw i hyn fod yn ddefnyddiol i'r sector ehangach a'r bartneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru sydd hefyd yn adolygu eu cynllun busnes pum mlynedd yn 2021.

## METHODOLEG A PHROSES

Roedd y prosiect hwn yn cyfuno dulliau dylunio, cyd-gynllunio gwasanaethau a rhagolwg o'r dyfodol.[1 2] Er mwyn sicrhau bod yr hadau newid, y weledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r camau gweithredu a awgrymwyd yn cefnogi'r profiadau a'r dyheadau ar draws y sector gwirfoddol; defnyddiwyd methodoleg cyfranogi drwy'r broses, i gynnwys cymaint o safbwyntiau gwahanol â phosibl yn y broses, cynhyrchu syniadau, dylunio ac adborth ar allbynnau.

## RHAGOLWG O'R DYFODOL

Ffocws craidd y prosiect oedd alinio gyda'r saith nod llesiant sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[3 4] Mae'r Ddeddf a gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi bod yn gyfeirnod allweddol i hysbysu'r gwaith. Yn ogystal, defnyddiwyd dull dylunio systemig a oedd yn canolbwyntio ar gymdeithas,[5 6] gan ddefnyddio egwyddorion cyfiawnder dylunio fel canllaw.[7] Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gwerthfawrogi pawb fel arbenigwr yn eu profiad byw eu hunain, rhannu gwybodaeth ac offer a cheisio cyflawni canlyniadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned.

Roedd y gwaith rhagolwg o'r dyfodol a gynhaliwyd yn y prosiect hwn wedi'i ddylanwadu'n helaeth gan dair prif ysgol o feddwl:

- **Llythrennedd yn y Dyfodol –** dull UNESCO sy'n hyrwyddo'r gallu i adnabod newidiadau yn y presennol a chanfod goblygiadau yn y dyfodol.[8]

- **Rhagolwg Strategol** - dull strwythuredig ar gyfer gwneud penderfyniadau hir dymor drwy herio rhagdybiaethau sylfaenol ac ystyried dyfodol amgen.[9]
- **Dyfodol Archwiliol** - dull sy'n canolbwyntio ar bobl er mwyn gwireddu gweledigaethau amgen ar gyfer y dyfodol i gefnogi adlewyrchiad ac arloesedd beirniadol.

Gyda'i gilydd, mae'r offer rhagolwg o'r dyfodol yn cynrychioli'r dulliau a ddefnyddir fwyaf eang i helpu unigolion, cymunedau a sefydliadau i allu ymdopi â byd sy'n gynyddol gyfnewidiol, ansicr, cymhleth ac amwys. Maent yn gyfres sefydledig o offer sy'n cael ei defnyddio fwyfwy i helpu i greu strategaethau cadarn a chydnerth o amgylch y byd ar lefelau lleol a chenedlaethol.

## DEFNYDDIO'R PECYN OFFER CYMUNEDOL ADEILADU DYFODOL GWELL

Mae'r Pecyn Offer Cymunedol Adeiladu Dyfodol gwell a ddatblygwyd gan CGGC a'r Ysgol Dyfodol Rhyngwladol wedi'i addasu a'i gyfuno gyda Phecyn Offer Creu Dyfodol Darbodus Futurice a'r dulliau ar gyfer y prosiect. Dilynwyd y dull pecyn offer cymunedol, gan gwblhau pob modiwl yn eu tro, ac ymgorffori dulliau ychwanegol a oedd yn cynnwys ymchwil pen desg, cyfweliadau, ymatebion i arolwg personol a thrafodaeth ehangach.

## MODIWL 1: CREU TIRLUN POSIBL AR GYFER Y DYFODOL

Amcan y modiwl hwn yw archwilio tueddiadau ac allosod cyfres helaeth o fathau posibl o ddyfodol er mwyn hyrwyddo trafodaeth ar beth y gallai dyfodol credadwy a'r dyfodol a ffefrir ei gynnwys.


Cynhyrchwyd cyfres o 54 o hadau newid drwy ymchwil eilaidd a chyfres o ymarferion cydweithredol gyda chyfranogwyr o'r sector gwirfoddol. Mae'r datganiadau hyn yn cynrychioli ystod o syniadau sy'n seiliedig ar rywbeth sydd eisoes yn digwydd ac mae'n cyfeirio at ddyfodol cadarnhaol, ond nid ydynt yn adnabyddus nac yn cael eu defnyddio'n helaeth. Roedd y gweithgarwch olwyn y dyfodol yn adeiladu ar hyn drwy ddefnyddio dull cydweithredol ac ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid. Mae olwyn y dyfodol yn cynnig fframwaith i archwilio sut y gallai hadau dyfu dros amser tuag at 2030 a chreu effaith gadarnhaol.

Canlyniad hyn oedd effeithiau ysbrydoledig amrywiol wedi'u creu ar y cyd sy'n darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am fathau posibl o ddyfodol y mae cyfranogwyr o'r sector yn dymuno eu gweld. Enghraifft o Hedyn Newid:

**Teitl Hedyn: Bwyd sy'n cael ei Dyfu'n Lleol**


**Disgrifiad:** Mae bwyd yn cael ei dyfu'n lleol yn hygyrch ac yn cael ei dyfu mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae bwyd yn cael ei gynhyrchu gan lawer o fusnesau bach, elusennau a grwpiau llawr gwlad sydd wedi'u cysylltu'n dda. Mae hyn wedi arwain at ddal mwy o garbon, diogelwch bwyd a chymunedau iachach, a mwy cysylltiedig.

**Ffynonellau ysbrydoliaeth:** Mewnbwn gweithdai, WWF, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Cynllun Gweithredu Datblygu Bwyd Sir Fynwy




**Uchod:** Enghraifft o Olwyn y Dyfodol

## PROSES Y PROSIECT: CYFUNO PECYN OFFER CYMUNEDOL ADEILADU DYFODOL GWELL GYDA DULLIAU FUTURICE I GYFLAWNI DYFNDER AC EHANGDER YR YMCHWIL A'R CYFRANOGIAD




**Uchod:** Diagram o weithgareddau'r prosiect, modiwlau ac allbynnau'r pecyn offer. Mae'r ddau becyn offer a ddefnyddir am ddim ac ar gael ar-lein i unrhyw un eu lawrlwytho a'u defnyddio.

**Cliciwch yma ar gyfer Pecyn Offer: Adeiladu Dyfodol Gwell – CGGC a SOIF**

**Cliciwch yma ar gyfer Pecyn Offer 2.0 Creu Dyfodol Darbodus - Futurice**

## MODIWL 2: CREU MAP TRYWYDD AT DDYFODOL A FFEFRIR A RENNIR

Fe gymerodd Modiwl 2 y gyfres eang o fathau o ddyfodol drwy olwynion y dyfodol a'u cydgrynhoi mewn un weledigaeth a rennir o'r dyfodol a ffefrir, gydag ystod o syniadau ar sut y gellir cyflawni'r dyfodol hwnnw.

Roedd hyn yn cynnwys echdynnu'r holl allbynnau o olwynion y dyfodol a chlystyru'r rhain yn themâu a disgrifiad cyffredinol o'r byd maen nhw'n eu disgrifio. Drwy gyfres o adolygiadau a diwygiadau cafodd hyn ei ailadrodd yn un weledigaeth derfynol a ffefrir a datganiadau ar y dyfodol yn yr adroddiad hwn.

Fel cam olaf, bu cyfres o gydweithredwyr o bob rhan o'r sector gwirfoddol, ochr yn ochr â nifer fach o aelodau o'r sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cydweithio ar weithgarwch o'r enw 'Y Tri Gorwel'. Bu iddynt gyd-ddylunio map trywydd o'r camau gweithredu a allai greu pont rhwng y presennol a'r dyfodol a ffefrir.

## MODIWL 3: CYNLLUNIO AR GYFER Y DYFODOL A FFEFRIR

Mae'r trydydd modiwl yn canolbwyntio ar ddechrau meddwl am greu cynllun gweithredu yn benodol ar gyfer CGGC a Cefnogi Trydydd Sector Cymru i symud tuag at y dyfodol a ffefrir.

Yn ystod y cam hwn, cynhaliwyd cyfres o weithdai 'Coeden' Gynllunio gyda chynrychiolwyr o CGGC a Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ystyried yn benodol pa gamau gweithredu a nodau y gallai'r sefydliadau hyn eu cymryd i gefnogi'r sector cyfan. Bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i'r gwaith cynllunio strategol ehangach y mae'r ddau yn ei gynnal ar hyn o bryd.


## DIFFINIADAU O DERMINOLEG

- **Cymuned:** defnyddir hyn i ddisgrifio grŵp o bobl sydd wedi'u cysylltu drwy elfen gyffredin. Mae'n bosibl eu bod i gyd yn byw mewn lleoliad daearyddol, neu efallai eu bod yn rhannu diddordeb, ffydd neu ethnigrwydd neu nodwedd gyffredin arall (e.e. y gymuned fyddar).[10]
- **Y Sector gwirfoddol neu'r trydydd sector:** pobl sy'n dod at ei gilydd yn wirfoddol, nid er mwyn arian neu am fod y gyfraith yn dweud wrthynt am wneud, ond am eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth.[11 12]
- **Gwytnwch:** gallu sefydliad i baratoi ar gyfer, ymateb i ac addasu i newid ac argyfwng, a'i alluogi i oroesi a ffynnu yn y tymor hir.[13]
- **Cyfranogwyr:** pobl sydd wedi cyfrannu yn y prosiect mewn un o'r ffyrdd canlynol: cyfweliadau manwl, gweithdai cyfranogol o bell, arolwg cymuned neu fel cydweithredwr mewn prosiect.
- **Nodweddion gwarchodedig:** Mae grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn cael eu diffinio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.[14]



# Y Dull Tri Gorwel

## CREU PONTYDD O'R PRESENNOL I'R DYFODOL A FFEFRIR




**Beth yw'r Tri Gorwel**

**Gorwel 1 (G1):** Mae enghreifftiau o weithgareddau busnes fel arfer, prif ffrwd yn cynnwys busnesau sy'n rhoi i sefydliadau gwirfoddol mewn model 'rhoddwr' a 'derbyniwr'.

**Gorwel 2 (G2):** Mae enghreifftiau o weithgareddau trosiannol yn cynnwys sefydliadau yn buddsoddi yn llesiant ac iechyd meddwl staff neu addysg gwrth-hiliaeth.

**Gorwel 3 (G3):** Mae enghreifftiau o weithgareddau arbenigol sy'n cynrychioli pocedi o'r dyfodol yn cynnwys sefydliadau yn darparu cyflog byw ac wythnos waith fyrrach a hyblyg er mwyn galluogi iechyd gwell, argaeledd rolau a'r amser ar gyfer dinasyddiaeth weithgar.

# 2. Gwybodaeth am Ymchwil

## CRYNODEB O'R WYBODAETH SYLFAENOL AC EILAIDD AM YMCHWIL



Ffotograff gan mentatdgt o Pexels



# Crynodeb o Ymchwil Eilaidd

Dechreuodd y prosiect drwy blethu dulliau ymchwil sylfaenol ac eilaidd ar gyfer sganio'r gorwel. Mae sganio'r gorwel yn ddull o ddychmygu'r dyfodol yn systematig er mwyn gallu cynllunio ymateb yn well.[15]

## DULL YMCHWIL A CHANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Roedd yr ymchwil hwn yn defnyddio ystod eang o ffynonellau i nodi tueddiadau ac arwyddion gwan am ddyfodol Cymru a'r sector gwirfoddol: y cyfryngau, y cyfryngau cymdeithasol, y celfyddydau a diwylliant, cyhoeddiadau academaidd a gwyddonol, adroddiadau tueddiadau ac adnoddau ac ymchwil CGGC ei hun. Mae gan bob un o'r meysydd tueddiadau a nodwyd oblygiadau ar gyfer dyfodol y sector gwirfoddol i'r degawd nesaf, ac felly cawsant eu trawsnewid yn hadau newid i ysgogi trafodaeth ac annog meddwl yn y tymor hir wrth weithio tuag at weledigaeth y dyfodol.

Mae'r tueddiad sganio'r gorwel a'r canfyddiadau arwyddion gwan wedi'u categoreiddio gan ddefnyddio'r fframwaith PESTLE; er bod gorgyffwrdd, maent wedi'u gosod mewn grwpiau yn seiliedig ar a ydynt yn fwyaf perthnasol i wleidyddiaeth, economeg, cymdeithas, technoleg ac arloesedd, deddfwriaeth neu'r amgylchedd. Isod mae crynodeb byr o'r prif megadueddiadau a'r themâu a ddaeth i'r amlwg.



**Gwleidyddiaeth:** Mae'n ymddangos bod seilwaith gwyrdd, cynaliadwyedd a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn derbyn mwy o flaenoriaeth yng Nghymru yn seiliedig ar gynlluniau newydd Llywodraeth Cymru a'r Senedd.[16 17 18 19 20] Mae tensiynau gwleidyddol wedi codi ynghylch datganoli e.e. y polisi cyllid a mewnfudo ar ôl Brexit a bennwyd gan San Steffan.[21 22]



**Amgylchedd:** Mae yna ymwybyddiaeth gynyddol, cydwybod a phwysau cymdeithasol ar bob sector a'r Llywodraeth i weithredu ar yr argyfyngau hinsawdd ac ecolegol.[23 24 25 26 27 28] Yn benodol wrth i Gymru gynllunio i arwain Cymru allan o'r pandemig a risgiau i Gymru, er enghraifft mwy o lifogydd ddod i'r amlwg.[29 30 31 32]



**Cymdeithas:** Mae'r pandemig wedi dwysáu anghydraddoldebau, ac wedi cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl.[33 34 35 36] Er gwaethaf yr heriau hyn a bod angen i lawer roi'r gorau i weithio neu wirfoddoli, dechreuodd nifer fawr o bobl hefyd wirfoddoli am y tro cyntaf e.e. pobl ifanc ar ffyrlo.[37] Roedd cynnydd sylweddol mewn ymwybyddiaeth a gwelededd ynghylch mentrau diwylliannol a gweithredu dros yr hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol, er enghraifft Mae Bywydau Du o Bwys (BLM).[38 39 40 41 42]

**Technoleg ac Arloesedd:** Mae technolegau, prosiectau digidol a mentrau entrepreneuraidd newydd yn dod i'r amlwg i gefnogi'r broses o drawsnewid i economi sy'n fwy cyfranogol a chylchol. Mae ymgyrch i ddefnyddio creadigrwydd ac arloesedd i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, creu Cymru flaengar ac adfywio ardaloedd gwledig. Er enghraifft, treialu incwm sylfaenol cyffredinol ar gyfer gofalwyr a chynyddu amrywiaeth cynrychiolaeth yng nghwricwlwm ysgolion.[43 44 45 46 47 48 49 50 51 52]

**Deddfwriaeth:** Mae diddordeb cynyddol i sefydlu polisïau a deddfwriaethau ataliol, gwyrdd a chyfiawn sy'n mynd i'r afael â'r heriau presennol a chefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol.[53 54 55 56 57 58]

**Economeg:** Mae elusennau, lletygarwch, gweithgynhyrchu a sectorau eraill wedi'u bwrw'n galed yn ariannol yn y pandemig, gyda llawer o swyddi wedi'u colli.[59 60] Mae yna fentrau yng Nghymru i ailgodi'n gryfach drwy fuddsoddi mewn swyddi gwyrdd, uwchsgilio ac addysg.[61 62 63] Bydd newid i drefniadau gweithio hyblyg, hybrid i rai sectorau a mwy o eiriolaeth ar gyfer economi llesiant yn debygol o darfu ar fodelau busnes confensiynol a chreu cyfleoedd newydd, yn benodol i entrepreneuriaid cymdeithasol neu sefydliadau â gwerthoedd yn eu llywio (gan gynnwys y sector gwirfoddol).[64 65 66 67 68 69]

# Crynodeb o Ymchwil Sylfaenol

Datgelodd yr ymchwil sylfaenol heriau critigol a chyfleoedd pwysig yn y sector gwirfoddol y mae ei aelodau yn awyddus i'w datblygu er budd y sector a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r prif feysydd ymchwil a ddisgrifiwyd fel y rhai pwysicaf i'r cyfranogwyr ymchwil yn sefydlu'r seiliau ar gyfer hadau newid a'r weledigaeth o'r byd yn y dyfodol.


## DYHEAD AM STRWYTHUR CYMDEITHASOL SY'N SYLFAENOL WAHANOL

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr 'Beth fyddai eich gweledigaeth ddelfrydol chi ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru ymhen 10 mlynedd?' Fe wnaethant ddisgrifio byd sy'n sylfaenol wahanol i'r un presennol. Roedd y mwyafrif wedi cyfleu dyhead i Gymru fod yn gymdeithas fwy cyfiawn, gwyrdd, cydnerth, gofalgar, a oedd yn canolbwyntio ar les a chymdeithas, lle mae gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol yn ganolog ac yn cael ei werthfawrogi.

Roedd cydnabyddiaeth a rennir bod Cymru yn wlad amrywiol, gyda llawer o ddiwylliannau, daearyddiaeth, ieithoedd, anghenion a phrofiadau byw. Roedd dyhead i hyn gael ei adlewyrchu yn nyfodol y sector gwirfoddol drwy well cynhwysiant a chynrychiolaeth o'r bobl a'r cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu.



## CANLYNIADAU'R AROLWG CYMUNEDOL: MAE'R PYNCIAU WEDI'U RHESTRU YN ÔL PLEIDLEISIAU CYFRANOGWYR I DDANGOS PWYSIGRWYDD UCHEL NEU UCHAF Y PWNC Y DYLAI'R SECTOR GWIRFODDOL GANOLBWYNTIO ARNYNT DROS Y 10 MLYNEDD NESAF.




Canran = nifer cyfranogwyr yr arolwg a roddodd sgôr o 4 neu 5 allan o 5 i'r pwnc yn nhermau pwysigrwydd 1=lleiaf pwysig, 3=canolig , 4=uchel, 5=pwysicaf.

**Nodyn pwysig ar ddehongli'r canlyniadau:** Gallai'r cyfranogwyr roi sylwadau am y rhesymau dros eu dewis. Dywedodd y mwyafrif bod y pynciau hyn wedi'u cysylltu neu'n rhyng-ddibynnol, ac nid oeddent o'r farn y dylid mynd i'r afael â hwy ar eu pennau eu hunain e.e. mae cydlyniant cymdeithasol yn hollbwysig ar gyfer gwytnwch, llesiant a goroesiad ar y blaned yn un enghraifft o hyn.

Pwysleisiwyd y rhwystrau a wynebir yn ceisio cael mynediad at gymorth, yn arbennig ar gyfer sefydliadau llawr gwlad. Mynegodd nifer o gyfranogwyr yr ymchwil ddyhead i brosesau cyllido fod yn fwy tryloyw, atebol a chyfartal. Roedd amrywiaeth aruthrol o ddyheadau ar gyfer y dyfodol, sydd wedi'u cofnodi drwy'r hadau newid (gweler pennod 4).

## Y GEIRIAU A DDEFNYDDIWYD AMLAF GAN GYFRANOGWYR YR AROLWG I DDISGRIFIO EU GWELEDIGAETH DDELFRYDOL AR GYFER Y SECTOR GWIRFODDOL YN 2030




**Uchod:** Mae'r geiriau a ddadansoddwyd yn deillio o gwestiwn yn yr arolwg 'Beth fyddai eich gweledigaeth chi o ddyfodol delfrydol i'r sector gwirfoddol yng Nghymru ymhen 10 mlynedd a pham?' Mae maint y geiriau yn dangos pa mor aml y cawsant eu defnyddio gan gyfranogwyr yr arolwg. Mae geiriau cysylltu nad ydynt yn darparu gwybodaeth wedi'u dileu e.e. 'wedi'i' a 'sector'.



**'[Byddai dyfodol delfrydol yn ymddangos ac yn teimlo fel] dinasyddion gweithgar yn helpu ei gilydd, gweithredoedd o garedigrwydd annisgwyl, grwpiau gwirfoddol a chymunedol cynaliadwy a chynhwysol ym mhob cymuned, pobl yn gofalu am yr amgylchedd.'**

**'Pawb yn cael llais cyfartal ynghylch beth sy'n digwydd yn eu cymunedau, gyda gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau gwerth cymdeithasol ac yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda'r bobl sy'n eu derbyn, buddsoddiad hirdymor yn y sector, peidio gorfod brwydro i gael cydnabyddiaeth.'**

- Sue Leonard, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Gwirfoddol Sirol, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Cyfranogwr yn yr Arolwg, Mehefin 2021



Ffotograff gan cottonbro o Pexels

# 3. Hadau Newid

**HADAU GWLEIDYDDOL, ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL, TECHNOLEGOL, DEDDFWRIAETHOL AC AMGYLCHEDDOL, YN SEILIEDIG AR YMCHWIL A CHYFRANOGIAD.**



Ffotograff gan Katerina Holmes o Pexels




# Beth yw Hadau Newid?

'Mae'n debygol nad yw'r hadau yn eang nac yn adnabyddus. Gallant fod yn fentrau cymdeithasol, technolegau newydd, offerynnau economaidd neu brosiectau ecolegol-gymdeithasol, neu sefydliadau, symudiadau neu ffyrdd newydd o weithredu y mae'n ymddangos eu bod yn cyfrannu i greu dyfodol sy'n gyfiawn, ffyniannus a chynaliadwy.'[70] - [Hadau Anthroposen Da]

## SUT GWNAETHOM EU DEFNYDDIO?

Bu'r cyfranogwyr yn archwilio'r hadau presennol yn seiliedig ar ymchwil eilaidd, yn ogystal â helpu i greu hadau newydd yn seiliedig ar eu profiad byw a'u dyheadau. Roedd yr hadau yn cymell pobl i feddwl am bosibiliadau yn y dyfodol, a chyfleu eu huchelgeisiau i Gymru a'r sector gwirfoddol. Dylech ystyried yr hadau fel man cychwyn ffynhonnell agored h.y. gallwch eu defnyddio neu ychwanegu atynt gyda'ch cymuned a'ch sefydliad, i hwyluso trafodaeth, creu gweledigaeth neu waith arall.

Mae'r hadau'n cael eu rhannu ar sail y model PESTLE (*politics*/gwleidyddiaeth, *economics*/economeg, *society*/cymdeithas, *technology*/technoleg, *legislation*/deddfwriaeth ac *environment*/amgylchedd) i gefnogi categoreiddio a sicrhau bod ystod eang o bynciau a meysydd ffocal cymdeithasol gwahanol.




**Ffynonellau ar gyfer yr hadau newid:** Ymchwil eilaidd, arolwg y sector gwirfoddol, cyfweliadau manwl a gweithdai. Fe gyfrannodd pobl a oedd yn gysylltiedig â 80+ o sefydliadau ar hyd a lled Cymru.

# 3.1 Gwleidyddol

**HADAU NEWID**

> **‘Pan wnaethom edrych ar bennu gweledigaeth mae angen i bawb ohonom fod wrth y bwrdd, er mwyn adlewyrchu’r cymunedau amrywiol yn ogystal â chymuned Cymru.’**
>
> - Faith Walker, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfeillion Cymru Sickle Cell and Thalassaemia C.I.C., Cyfranogwr mewn gweithdy, Mehefin 2021.



Ffotograff gan RF._.studio o Pexels



| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Pobl ifanc yn arwain** | Mae pobl ifanc wedi’u grymuso i arwain gyda thosturi ar draws cymunedau, er mwyn cefnogi’r gwaith o greu systemau, strwythurau a ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol. Mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi cynhyrchu rhaglenni addysgol, cyfleoedd cyflogaeth a pholisïau’r Llywodraeth ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyflog byw cenedlaethol er mwyn gwneud rolau yn fwy hygyrch. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Mewnbwn yr arolwg<br>• Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau’r Dyfodol<br>• Anthem<br>• Cynnal Cymru<br>• Cynhadledd Ieuenctid y G7<br>• Senedd Ieuenctid Cymru |
| **Adferiad yn dilyn y pandemig** | Mae’r adferiad yn dilyn y pandemig yn parhau, ond mae cymunedau lleol wedi ystyried y gwersi a ddysgwyd wrth symud ymlaen. Er enghraifft, mae addysg, hyfforddiant technoleg, cyfathrebu gwell a phartneriaethau a ddechreuodd yn y pandemig wedi tyfu. Mae sefydliadau gwirfoddol wedi adeiladu ar gysylltiadau cymunedol ar ôl y pandemig ac wedi dysgu sut i ddefnyddio egni gwirfoddolwyr newydd mewn rolau hyblyg amrywiol. | • Mewnbwn yr arolwg<br>• Sefydliad Cymunedol Cymru<br>• WCPP (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru), CLlLC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) a CGGC<br>• Y Lab |
| **Amser i ofalu** | Mae gan Gymru Incwm Sylfaenol Cyffredinol ac wythnos waith fyrrach sy’n darparu sicrwydd, amser i ofalu a gwaith gwirfoddol. | • Comisinydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru<br>• New Economics Foundation<br>• State of Wales<br>• Wales Online |
| **Annog entrepreneuriaid** | Mae colegau ar-lein am ddim yn cynnig cymwysterau achrededig sydd wedi’u cysylltu ag anghenion economaidd Cymru. Mae micro-fenthyciadau cyllido torfol ar gael heb lawer o log, sy’n cynnwys hyfforddiant sgiliau busnes i entrepreneuriaid. | • Mewnbwn cyfweliadau<br>• Hadau Newid y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST) (Prosiect CGGC)<br>• Prifysgol Bangor<br>• Y Dref Werdd |

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Gwlad fusnes flaenllaw** | Mae Cymru'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel lleoliad delfrydol i entrepreneuriaid a busnesau newydd, oherwydd cefnogaeth gan y Llywodraeth, mynediad at sgiliau, adnoddau ac ansawdd bywyd | • Mewnbwn cyfweliadau<br>• Antur Stiniog<br>• Daily Post<br>• Down to Earth<br>• Masnach a Buddsoddi Cymru |
| **Pobl ifanc yn cael eu cefnogi yn y gwaith** | Mae diogelwch, uwchsgilio a gwaith o ansawdd wedi'u gwarantu ar gyfer pobl ifanc. Mae ganddynt ddylanwad yn eu rôl ac maent yn cael eu hannog i fod yn greadigol yn y gweithle. Dechrau cadarnhaol sy'n dylanwadu ar eu dyfodol. | • Mewnbwn cyfweliadau<br>• Anthem<br>• Canolfan y Mileniwm Cymru<br>• Prifysgol Bangor |
| **Economi llesiant** | Mae gan Gymru economi llesiant, lle mae llesiant yn fesur o lwyddiant y wlad yn hytrach na chynnyrch domestig gros (GDP). Mae hyn yn rhan o hunaniaeth genedlaethol flaengar a phartneriaeth ryngwladol o wledydd o'r un anian e.e. Gwlad yr Iâ, Seland Newydd a'r Alban. | • Mewnbwn gweithdai<br>• CGGC<br>• Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>• Oxfam Cymru<br>• Platfform<br>• WEALL (Wellbeing Economy Alliance) |

# ...Economi Llesiant




Ffotograff gan RODNAE Productions gan Pexels





# 3.2 Economaidd



**'Mae yna angen amlwg ar fyrder i'r sector gwirfoddol a'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd adfer ac ail-adeiladu ar ôl y pandemig.'**

**'Yn ystod y pandemig gwelsom bobl yn troi at weithgarwch creadigol fel ffordd o ymdopi. Mae angen i ni gefnogi a hyrwyddo'r creadigrwydd beunyddiol hwn i bawb.'**

- Gareth Coles, Cyfarwyddwr Cymru Creative Lives, cyfranogwr yn yr arolwg, Mehefin 2021

Ffotograff gan Liliana Drew o Pexels

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Cyfleoedd gwaith ystyrlon** | Diolch i ryngrwyd am ddim, addysg fforddiadwy a hyfforddiant uwchsgilio wedi'i ariannu ar gyfer swyddi gwyrdd (e.e. ar gyfer rolau ynni adnewyddadwy ac yn y blaen), mae Cymru'n gallu cadw a chefnogi talent leol mewn ardaloedd gwledig a threfol. Gall pobl weithio o bell i sefydliadau lleol neu ryngwladol. Maent wedi'u cysylltu'n dda â'r cymunedau maent yn uniaethu â hwy, hyd yn oed os ydynt yn bell i ffwrdd yn ddaearyddol. Mae pobl ifanc yn gweld dyfodol gyda chyfleoedd amrywiol i fod mewn gwaith neu waith gwirfoddol ystyrlon. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Mewnbwn yr arolwg<br>• Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>• Indycube<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Mentor Môn<br>• New Economics Foundation<br>• Podlediad Flatten the Curve<br>• Prifysgol Bangor<br>• Sefydliad Bevan |
| **Busnesau lleol a chylchol** | Mae diwydiannau wedi ail-leoli, wrth gynnal cysylltiad ac ysbrydoliaeth ryngwladol. Mae gan fwy o fusnesau yng Nghymru systemau dosbarthu'n uniongyrchol i'r cwsmer sydd wedi'u datblygu'n dda, sy'n golygu bod y cwsmer yn derbyn nwyddau'r economi gylchol, o ffynonellau lleol (e.e. beiciau sy'n cael eu hailddefnyddio, cynnyrch lleol, ffres) ac mae'r busnes yn cael llawer mwy o elw. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fentrau cymdeithasol, cwmnïau stiwardiaeth neu gwmnïau cydweithredol y mae pobl leol yn berchen arnynt ac yn eu rhedeg. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Banc Cambria<br>• Drosi Beiciau<br>• Greenstream Flooring CIC<br>• Mentor Môn<br>• Partneriaeth Ogwen<br>• Prosiect hadau newid CGGC (yn seiliedig ar Hadau Anthroposen Da)<br>• reSource CIC<br>• Y Dref Werdd |
| **Datblygu pobl ac arweinyddiaeth amrywiol** | Mae cefnogaeth sydd wedi'i llywodraethu a'i hariannu'n dda i ddatblygu staff ac arweinyddiaeth amrywiol. Mae gan y sector gwirfoddol lawer o adnoddau, a rhwydwaith o gynghreiriaid a chyfeillion beirniadol, pobl sy'n meddu ar y sgiliau priodol ac sydd wedi'u hyfforddi'n briodol mewn rolau cyflogedig a gwirfoddol, a chyfleoedd i dyfu. Mae enghreifftiau o hyfforddiant yn cynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gwrth-hiliaeth e.e. hyfforddiant rhagfarn, troseddau casineb a dad-ddwysáu. | • Mewnbwn cyfweliadau<br>• Mewnbwn gweithdai<br>• Mewnbwn yr arolwg<br>• BLM Cymru<br>• Hub Cymru Africa<br>• Race Council Cymru (RCC) |



| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Gofal gwerth chweil** | Mae rôl gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr yn cael ei gwobrwyo e.e. darparu mynediad at wasanaeth hamdden a lletygarwch am ddim i ofalwyr. Mae cymorth i ofalwyr yn cynnwys hyfforddiant, cefnogaeth iechyd meddwl, seibiant a gwasanaethau profedigaeth. | • Diverse Cymru<br>• Gofal yn Sir y Fflint<br>• Tempo Time Credits<br>• Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru |
| **Diogelwch ariannol i'r rhai mewn angen** | Rhoddir arian i'r rhai mewn angen i'w ddefnyddio fel y gwelant orau ar eu telerau eu hunain, yn hytrach na chael mynediad a bennwyd ymlaen llaw at wasanaethau penodol | • Age UK<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Shelter Cymru |
| **Sector gwirfoddol hygyrch ac addasadwy** | Mae cyflog byw gwirioneddol, cymorth i rieni a gofalwyr (er enghraifft cyllid ar gyfer gofal plant) yn golygu bod y sector gwirfoddol yn cynrychioli'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae pob lefel yn hygyrch, gyda safbwyntiau a phrofiadau amrywiol, gan gynnwys Uwch Reolwyr a Byrddau. Mae gwasanaethau gwirfoddol yn fwy addasadwy, creadigol ac ymatebol i anghenion amrywiol y bobl maent yn eu gwasanaethu. | • Mewnbwn cyfweliadau<br>• Mewnbwn gweithdai<br>• Mewnbwn yr arolwg<br>• Cynnal Cymru<br>• Dewis Cymru<br>• Grŵp Sgowtiaid 1af Al-Huda Cathays<br>• Meithrinfeydd Dydd<br>• Race Council Cymru (RCC) |

## ....Mentrau cymdeithasol â pherchnogion lleol



Ffotograff gan Mael BALLAND ar Unsplash

# 3.3 Cymdeithas a Chymunedau

> **‘Ein pobl ifanc, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yw dyfodol Cymru. Mae’n rhaid i ni greu amgylchedd lle gall unigolion feithrin eu talentau, tanio eu hangerdd a blodeuo i’r ffurfiau llawnaf ohonynt eu hunain er mwyn cyfrannu yn y gymdeithas.’**
>
> - Debanjali Bhattacharjee, Aelod Tîm Llinell Gymorth BAME Cymru, EYST (Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig, cyfranogwr gweithdy, Mehefin 2021)



Ffotograff gan Ivan Samkov o Pexels

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Addysgu’r genhedlaeth nesaf** | Mae gan addysg rôl allweddol yn siapio dinasyddiaeth weithgar a pharchu gwahaniaeth o oedran ifanc. Mae cefnogaeth ar gael yn y meysydd cyhoeddus a phreifat (e.e. ysgolion, teuluoedd) i ddysgu am foeseg, gwerthoedd a sgiliau rhyngbersonol. Mae cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth wedi’u hymgorffori yn y cwricwlwm, gyda chynrychiolaeth ddilys o safbwyntiau amrywiol a phobl â nodweddion gwarchodedig.[71]Mae pobl ifanc yn hyderus ynghylch hunan-hunaniaeth, sut y gallant gyfrannu yn eu cymuned a chenedlaethau’r dyfodol. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Addysg Llywodraeth Cymru<br>• BLM Cymru<br>• Comisiynydd Plant Cymru<br>• Diverse Cymru<br>• Hadau Newid EYST (Prosiect CGGC)<br>• Nurseryworld |
| **Cydraddoldeb a dialog onest** | Mae yna ddyddiau dialog, cynulliadau dinasyddion a mannau eraill wedi’u creu mewn bywyd dinesig (e.e. ysgolion, gwaith, llywodraeth leol, fforymau cyhoeddus ar-lein ac all-lein) er mwyn gwrando ar leisiau amrywiol, ac i alluogi dialog onest, ddwy ffordd ynghylch syniadau, rhwystrau a sut i’w goresgyn. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Autism Hidden Voices<br>• Cynulliadau Dinasyddion, datganoli20.cymru<br>• Hadau Newid EYST<br>• ScoutsCymru<br>• Y Tŷ Gwyrdd |
| **Strategaethau wedi’u harwain ar lawr gwlad** | Mae sefydliadau llawr gwlad yn cael eu gwerthfawrogi’n fawr oherwydd eu cysylltiad agos ag anghenion gwahanol gymunedau. Maent yn ffurfio pont sy’n cysylltu sefydliadau mwy neu sefydliadau gwirfoddol gyda phobl ar lawr gwlad. Mae lefel uchel o barch a gwneir penderfyniadau allweddol mewn partneriaeth rhwng sefydliadau mwy a sefydliadau llawr gwlad. Mae hyn yn sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu cynnwys ac yn cael dylanwad o ddechrau trafodaeth neu waith cynllunio strategol. | • Mewnbwn gweithdai<br>• EYST (Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig Cymru)<br>• NWAMI / The CCE (Ganolfan ar gyfer Ymgysyll tu Diwylliannol)<br>• NYCA (Cymdeithas Cymuned Yemenïaidd Casnewydd)<br>• RCC (Race Council Cymru) |
| **Noddfa a pharch i bawb** | Rhoddir cartref a noddfa i unrhyw un mewn angen, lle byddant yn teimlo’n ddiogel, wedi’u croesawu a lle gallant fyw gydag urddas. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth emosiynol ac ymarferol, er enghraifft llety diogel i’r rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. | • Workshop input<br>• BAWSO (Black Association of Women Step Out)<br>• Care and Repair Cymru<br>• CFA (Community Furniture Aid)<br>• Ministry of Furniture<br>• MIND |

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Cymru gyfartal a gwrth-hiliol** | Mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd, mewn cydweithrediad â sectorau eraill, yn agosach at sicrhau'r ymrwymiad a rennir o wneud Cymru yn wlad gyfartal a gwrth-hiliol. Mae sefydliadau'n cael eu strwythuro o amgylch ymdrechion ymwybodol a bwriadol i ddarparu cyfle cyfartal i bawb ar lefel unigol, sefydliadol a systemig. | • Mewnbwn cyfweliadau<br>• Mewnbwn yr arolwg<br>• Dim Hiliaeth Cymru<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Ymchwil y Senedd |
| **Cyfathrebu hyblyg a pherthnasol** | Mae dialog ar draws y sector gwirfoddol a sectorau eraill yn ddynamig a chynhwysol. Mae sefydliadau'n cael eu haddysgu ar ddulliau cyfathrebu priodol ar gyfer gwahanol grwpiau – o'r gair llafar i ddulliau gweledol i sianelau digidol. Mae fformatau gwybodaeth hygyrch ar gael ar gais yn rhwydd ac yn cael eu darparu'n gyflym e.e. print bras, hawdd eu deall, sain, Braille, a/neu ieithoedd cymunedol drwy sianelau digidol neu ffisegol, er enghraifft y post. | • Mewnbwn cyfweliadau<br>• Mewnbwn yr arolwg<br>• Mewnbwn gweithdai<br>• Diverse Cymru<br>• gofod3<br>• Grŵp Sgowtiaid 1af Al-Huda Cathays<br>• LGBTQYMRU |
| **Celfyddydau a diwylliant hygyrch, sy'n ffynnu** | Mae gan bawb fynediad at greadigrwydd, diwylliant a digwyddiadau a gynhelir yn rheolaidd ar-lein ac all-lein. Ceir dathliad a chydnabyddiaeth o bob diwylliant yng Nghymru. Drwy gelfyddydau a diwylliant sy'n ffynnu, mae pobl yn croesawu gwahaniaeth, yn creu cymunedau cynhwysol, yn meddwl yn wahanol ac yn arfer eu dinasyddiaeth. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Citizen Network<br>• Creative Lives<br>• Glitter Cymru<br>• NWAMI / The CCE<br>• Pride Cymru<br>• Theatr Taking Flight |
| **Cymunedau Cryf** | Cefnogir cadernid wrth i wirfoddolwyr gysylltu a threfnu o amgylch cryfderau a nodau cyffredin cymunedol e.e. daearyddiaeth, ffydd, iaith, diwylliant ac yn y blaen er mwyn mynd i'r afael â heriau fel y newid yn yr hinsawdd ac atgyweirio ecolegol. | • Ymatebwr yn yr arolwg<br>• Adfyrio Cymru<br>• Hub Cymru Africa<br>• IFEES/EcoIslam<br>• Mentor Môn<br>• Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru<br>• Sefydliad Cymunedol Cymru<br>• Y Dref Werdd |





Ffotograff gan RF._.studio o Pexels

## ...Gwlad gyfartal



Ffotograff gan Karina Thomson o Pexels

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Cymru Amlieithog** | Mae sefydliadau'n gweithio'n ddi-dor ar hyd a lled Cymru, ieithoedd a dulliau cyfathrebu eraill. | • Mewnbwn yr arolwg<br>• Mewnbwn gweithdai<br>• LGBTQYMRU |
| **Croesawu mannau dinesig** | Mae mannau dinesig ar-lein ac all-lein yn gynhwysol ac yn creu ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, mae mannau cyhoeddus fel strydoedd a pharcio wedi'u dylunio i sicrhau nad ydynt yn cyflwyno rhwystrau a'u bod yn hygyrch i bawb. Mae mannau ymgynnull dinesig, o neuaddau tref ac ysgolion i sgwariau, tafarndai a digwyddiadau wedi'u dylunio i helpu pawb i deimlo'n ddiogel, wedi'u croesawu ac yn cael eu clywed. Mae hyn yn cynnwys mannau ar gyfer pobl ifanc a phlant yn benodol, er enghraifft meysydd chwarae. | • Diverse Cymru<br>• Glitter Cymru<br>• FFRAM Sir Benfro<br>• Make Space for Girls<br>• MeToo<br>• Miss Tilley's<br>• Pride Cymru |
| **Gwella cymdeithas a chymuned** | Mae iechyd meddwl a lles meddyliol pobl yn cynyddu, diolch i fuddsoddiad cryf ers y pandemig. Mae'r rhai mewn angen a/neu sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y pandemig wedi derbyn cefnogaeth gyda gwasanaethau profedigaeth, galar, trawma a gwella am ddim, sydd wedi'u hymgorffori mewn cymunedau. Mae gwasanaethau cymorth iechyd, lles a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio, maent yn gyfannol ac wedi'u teilwra ar gyfer anghenion cymunedau amrywiol ar hyd a lled Cymru. | • Workshop input<br>• Diverse Cymru<br>• Home-Start Cymru<br>• MeToo<br>• MIND<br>• New Local<br>• Platfform |
| **Cymdeithas hygyrch** | Mae offer arbennig ar gael i unrhyw un sydd eu hangen er mwyn i bawb allu byw a gweithio gydag urddas ac annibyniaeth. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer arferion gweithio ystwyth. Mae gweithleoedd yn hyblyg a chynhwysol gydag opsiynau gweithio'n rhan amser hybrid (gweithio yn y gweithle, gartref neu o bell) ar gael i bawb. | • BBC<br>• Diverse Cymru<br>• Indycube<br>• Ministry of Furniture, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru<br>• Miss Tilley's<br>• RNID (Action on Hearing Loss) |






Ffotograff gan Eren Li o Pexels

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Cydnabod manteision gwirfoddoli** | Mae manteision gwirfoddoli i gymdeithas, iechyd a llesiant yn cael eu cydnabod yn eang. Mae dulliau cyfathrebu a chydweithredu gwell yn ystod y pandemig wedi galluogi i waith gwirfoddoli gael ei gynnal a'i integreiddio'n well yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar hyd a lled Cymru. Mae tystiolaeth eang o effaith gadarnhaol gwirfoddoli mewn unrhyw faes, ar dderbynwyr, staff, y system ac ar wirfoddolwyr eu hunain ac maent yn cael eu deall yn eang. | • Council's for Voluntary Services<br>• CGGC<br>• Helpforce Cymru<br>• Social Value Cymru<br>• Tempo Time Credits<br>• Volunteering Matters<br>• WCPP (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru) |
| **Cymunedau cysylltiedig** | Mae pobl sy'n symud i ardal newydd yn cael eu croesawu gan 'grŵp croeso' amrywiol wedi'i arwain gan y gymuned. Mae pobl yn dysgu am safbwyntiau a diwylliannau gwahanol, gan ymgysylltu mewn trafodaethau ac mae aelodau newydd o'r gymdeithas yn dod i adnabod pobl leol. Mae'r grwpiau croesawu yn cysylltu aelodau newydd o'r gymdeithas a gwasanaethau llawr gwlad perthnasol os oes angen cymorth arnynt – ar gyfer cyfathrebu, dehongli, llenwi gwaith papur ac yn y blaen. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Cymdeithas Iberia ac America Ladin yng Nghymru<br>• Llinell Gymorth BAME Cymru<br>• Y Tŷ Gwyrdd |
| **Gofal yn y gymuned** | Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ataliol yn cael eu darparu'n lleol. Mae hyn yn digwydd drwy hybiau o dimau sy'n rheoli eu hunain, gan gynnwys gwirfoddolwyr hyfforddedig o'r gymuned. | • Hadau Newid CGGC (yn seiliedig ar erthygl The Guardian)<br>• Helpforce Cymru |
| **Gweithio'n well gyda'n gilydd** | Cynhelir 'dyddiadau syniadau' rheolaidd lle bydd sefydliadau traws-sector yn dod at ei gilydd i feddwl am sut i fynd i'r afael â heriau cyffredin mewn ffordd sy'n fuddiol i bawb, yn hytrach na dyblygu gwaith neu gystadlu. Mae cyllid yn cael ei arwain yn lleol, mae'n gynaliadwy ac yn seiliedig ar wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'n cefnogi cydweithrediad tymor hwy, arloesedd a datblygu gwytnwch. Fel ecosystem, mae perthnasau, llifoedd o bobl, sgiliau, asedau ac adnoddau yn cael eu blaenoriaethu ar sail angen. | • Mewnbwn cyfweliadau<br>• Mewnbwn yr arolwg<br>• Mewnbwn gweithdai<br>• Covid-19 Mutual Aid UK<br>• gofod3<br>• Gyda'n Gilydd dros Newid<br>• Hadau Newid EYST (prosiect CGGC)<br>• Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru<br>• Social Value Cymru<br>• Y Lab |





## ...Dyddiau syniadau traws-sector

Ffotograff gan Jopwell o Pexels

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Cymdeithas ddinesig gynhwysol** | Nid yn unig y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu parchu a'u cynnwys mewn bywyd dinesig, maent hefyd yn gyfranogwyr neu'n fentoriaid sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. O ganlyniad i fwy o ystodau oedran a grwpiau amrywiol yn cael amser i wirfoddoli, mae dysgu a chymdeithasu rhwng y cenedlaethau yn gyffredin (e.e. tyfu bwyd lleol, cyfnewid sgiliau ac yn y blaen). | • Mewnbwn gweithdai<br>• Aber Food Surplus<br>• Learn Together Cymru, Volunteering Matters<br>• Miss Tilley's<br>• Y Tŷ Gwyrdd |
| **Penderfyniadau wedi'u harwain gan y gymuned** | Mae gan bawb lais yn yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau, gyda gwasanaethau'n cael eu cynhyrchu ar y cyd gan y bobl sy'n cael eu heffeithio ganddynt. Mae fforwm ar-lein sy'n cael ei redeg gan y gymuned yn galluogi preswylwyr i ddatblygu a rhannu syniadau newydd, lleisio cwynion a chyflwyno cynigion ar unrhyw beth o ofal iechyd i seilwaith y cyngor a phenderfynwyr lleol. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Cyfranogwyr yr arolwg<br>• C3SC<br>• Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint<br>• Hadau Newid EYST (prosiect CGGC) yn seiliedig ar Hadau Anthroposen Da |
| **Naratif cydnabod a chadarnhaol** | Mae gan y sector gwirfoddol ddulliau cyfathrebu clir a hygyrch gyda'r cyhoedd ar-lein ac all-lein. Mae'r sector yn dda am rannu storïau cadarnhaol am waith ac effaith gwirfoddolwyr. Ceir cydnabyddiaeth agored o werth a buddiannau gwirfoddoli. | • Mewnbwn yr arolwg<br>• Mewnbwn gweithdai<br>• CVS<br>• Miss Tilley's<br>• Volunteering Matters |
| **Mae gwirfoddoli yn rhan o fywyd dinesig** | Mae gwirfoddoli yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, mae gan bawb gyfle i wirfoddoli. Mae cyfleoedd gwirfoddoli ar gael i bawb, waeth beth yw eu profiad, sgiliau, gallu neu'r amser sydd ganddynt i'w gyfrannu. | • Mewnbwn yr arolwg<br>• Dewis Cymru<br>• Gwirfoddoli Ieuenctid ac Ysgolion Cymru, CGGC |
| **Partneriaethau traws-sector atebol ac addasadwy** | Mae pob sector yn gweithio mewn partneriaeth i ymateb i anghenion cymunedau ac ymgymryd â gwaith cyd-gynhyrchu a chyd-gyflenwi effeithiol. Mae seilwaith llyfn a thryloyw yn galluogi proses o addasu ac atebolrwydd e.e. mae ymrwymiad i ariannu sefydliadau llawr gwlad effeithiol a thryloywder ar y ffordd y mae sefydliadau'r sector gwirfoddol yn cael eu hariannu. | • Mewnbwn cyfwelai<br>• Mewnbwn yr arolwg<br>• BLM Wales<br>• Gyda'n Gilydd dros Newid<br>• Hub Cymru Africa<br>• Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru |



# 3.4 Technoleg ac Arloesedd

## HADAU NEWID

**'Mae digideiddio yn gyffrous. Mae'n galluogi cysylltiad nad oedd yn bosibl o'r blaen ac mae'n cynnig cefnogaeth pan fydd ynysiad a bregusrwydd, ond ni ddylai ddisodli cyfathrebu wyneb yn wyneb.'**

**'Mae'r sector gwirfoddol yn gallu cysylltu mewn modd ystyrlon yn eithriadol o dda.'**

- Kate Young, Cyfarwyddwr Fforwm Cymru Gyfan ar gyfer Rhieni a Gofalwyr, cyfwelai – Mehefin 2021

Ffotograff gan Marcus Aurelius o Pexels

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Technoleg er budd** | Mae gan Gymru economi ddigidol gadarn, gyda'r sector gwirfoddol yn defnyddio data ar y cyd i helpu i flaenoriaethu anghenion lleol a chenedlaethol. | • Mewnbwn cyfweliad<br>• CGGC<br>• Data Cymru<br>• TSSW |
| **Darpariaeth ddigidol gynhwysol** | Mae mwy o wasanaethau cyhoeddus a dinesig yn cael eu darparu'n ddigidol – ar-lein neu drwy awtomeiddio. Yn sgil cyfranogiad dinasyddion, mae ansawdd y gwasanaethau hyn yn uchel ac yn cyd-fynd ag anghenion y bobl maent wedi'u hanelu ar eu cyfer. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Cymunedau Digidol Cymru<br>• Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint |
| **Digidol cymdeithasol** | Drwy fanteisio ar yr hyblygrwydd y mae technolegau o bell yn ei gynnig, ochr yn ochr â chefnogaeth mewn person, mae sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol wedi pontio'r bwlch digidol mewn cymunedau. Mae gwasanaethau hanfodol yn fwy hyblyg a chynhwysol i anghenion amrywiol e.e. mae plant, gofalwyr neu bobl na allant adael eu cartref yn gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau o bell. | • Mewnbwn y cyfweliad<br>• Mewnbwn gweithdai<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Pride Cymru<br>• ScoutsCymru |
| **Seilwaith Cymunedol** | Mae prosiectau seilwaith allweddol yn eiddo i bobl leol neu maent wedi'u dylunio gyda hwy. Er enghraifft, mae yna ganolfannau pŵer dŵr, di-garbon, tai effaith isel, safleoedd bioamrywiaeth a ffermydd solar ar hyd arfordir Cymru – sy'n adfywio economïau a bywoliaethau arfordirol. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Partneriaeth Ogwen<br>• The Guardian<br>• Ty'n Llan<br>• Wales Online<br>• Ynni Ogwen Cyf |
| **Llywio economi gylchol** | Fel rhan o ymgyrch i drawsnewid Cymru i fod yn economi gyfartal, gylchol a di-garbon, defnyddir microsglodion i olrhain a rheoli ailgylchu, yn ogystal â chadwyni cyflenwi eraill, ar hyd a lled Cymru. | • Daily Post<br>• Llywodraeth Cymru<br>• reSource CIC<br>• Smile Plastics |
| **Amaethyddiaeth effeithlon** | Defnyddir dronau, synwyryddion a data, ffermio manwl a fertigol i gynyddu effeithlonrwydd a chynaliadwyedd amaethyddiaeth. | • Daily Post<br>• Daily Post |
| **Gwledig doeth** | Mae technolegau gwyrdd newydd, seilwaith digidol a mentrau entrepreneuraidd yng Nghymru wledig wedi adfywio llawer o ardaloedd. Mae twristiaeth ac amodau byw gwledig ffyniannus, arloesol ac adfywiol ar waith. | • Arsyllfa Wledig Cymru<br>• Mentor Môn<br>• Prifysgol Bangor<br>• Prifysgol Caerdydd |





**…Cadwyni gwerth cylchol a thai effaith isel**

Ffotograff gan Ketut Subiyanto o Pexels

# 3.5 Deddfwriaeth




**'Mae partneriaethau'n fwyfwy pwysig yn y sector. Beth yw rôl cymdeithas ddinesig wrth ailgodi'n gryfach? Sut i ddarbwyllo Llywodraeth bod gan gymdeithas ddinesig gyfraniadau defnyddiol ar bolisïau ail-leoli'r sector fel darparwr datrysiadau i bolisïau cnotiog?'**

- Vicky Browning cyfwelai, Prif Swyddog Gweithredol yn ACEVO, (Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol), cyfwelai, Mehefin 2021

Ffotograff gan Shengpengpeng Cai ar Unsplash



| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Y sector gwirfoddol fel Partner i'r Llywodraeth a'r Senedd** | Nid yw'r sector gwirfoddol yn cael ei ystyried fel y 'trydydd sector' mwyach ond fel partner a chynghorydd polisi uchel ei barch i'r Llywodraeth, y Senedd a chyrff y sector cyhoeddus, sydd â chyfraniad gwirioneddol i'w wneud yn siapio deddfwriaeth neu ddatrysiadau er mwyn ymateb yn well i anghenion dinasyddion. Ymddiriedir ym mhob sector fel un sydd ag arbenigedd yn eu priod feysydd. | • Mewnbwn cyfranogwr yr arolwg<br>• Mewnbwn gweithdai<br>• Mewnbwn cyfwelai<br>• ACEVO<br>• North Wales Local Resilience Forum |
| **Rhagnodi cymdeithasol** | Mae rhagnodi cymdeithasol wedi'i sefydlu. Mae'r cyhoedd yn cydnabod gwerth y sector gwirfoddol ac yn deall sut y gallant gyfrannu at a chyflawni eu hanghenion cymdeithasol, iechyd ac ymarferol drwy eu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau cymunedol mwy a llawr gwlad. | • Mewnbwn gweithdai<br>• MIND<br>• Primary Care One<br>• Prifysgol De Cymru |
| **Ailadeiladu ein tiroedd comin** | Mae dull ar sail tir comin ar waith ar gyfer adnoddau a rennir, er enghraifft dŵr a mannau cyhoeddus er mwyn ei reoli mewn dull cynaliadwy er lles pawb, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Adfyrio Cymru<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Hadau Newid EYST (prosiect CGGC) yn seiliedig ar Hadau Anthroposen Da |
| **Trosoledd treth ar gyfer gwirfoddoli** | Oherwydd dylanwad a chydnabyddiaeth gynyddol o'r sector gwirfoddol, mae'r Llywodraeth yn cymhwyso trethi fel offer i gefnogi capasiti ac adnoddau. Er enghraifft, mae yna ostyngiadau treth i gwmnïau sy'n darparu amser gwaith i staff wirfoddoli. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Brewin Dolphin |
| **Partneriaethau ar draws y DU** | Mae gan y sector gwirfoddol berthnasau cryf gyda sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol ar draws y DU. Mae sefydliadau'n arwain yn eu meysydd o gryfder. Mae cynghreiriau strategol yn cefnogi ac yn sicrhau dysgu, ac yn creu dealltwriaeth glir o anghenion lleol a chenedlaethol. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Ymatebwyr yr arolwg<br>• CGGC<br>• NICVA, SCVO, WCVA<br>• Y Lab |

# 3.6 Amgylcheddol



**‘Nid wyf yn credu bod y pynciau yn annibynnol ar ei gilydd – e.e. mae angen mynd i’r afael ag adfer ar ôl y pandemig, newid yn yr hinsawdd, llesiant a chydraddoldeb gyda’i gilydd....Byddai dyfodol cadarnhaol yn cynnwys cymunedau yn trefnu, yn berchen ar ac yn rhedeg asedau gyda’i gilydd i’w hunain.’**

- Tamsin Stirling, Gweithiwr Llawrydd ac Ymddiriedolwr ar Fwrdd Sefydliad Bevan Foundation, cyfranogwr yn yr arolwg, Mehefin 2021

Ffotograff gan Allan Mas o Pexels



| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Natur a llesiant** | Mae’r gymuned yn berchen ar neu’n rheoli natur leol – yn creu cyfleoedd ar gyfer hamdden, dysgu, bioamrywiaeth a gwaith. Mae parciau sydd wedi’u dad-ddofi, sy’n ddiogel a hygyrch, yn galluogi i bobl wella eu hiechyd a’u lles, yn ogystal â chefnogi datblygiad ecolegol ac ysbrydol. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Beyond Greenspace<br>• Down to Earth<br>• Hadau Newid CGGC (yn seiliedig ar hadau anthroposenda)<br>• Lais y Goedwig<br>• Linc Cymru |
| **Lleoli ynni a lleihau costau** | Mae cymunedau a sefydliadau lleol (e.e. ysgolion) yn cynhyrchu eu hynni gwyrdd eu hunain ar gyfer cartrefi a busnes, ac maent yn berchen ar systemau cynhyrchu a storio ynni, cynhyrchu incwm a lleihau costau ynni. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Hadau Newid CGGC (yn seiliedig ar Green Alliance)<br>• Partneriaeth Ogwen |
| **Perchnogaeth ac incwm cymunedol** | Mae’r gymuned yn berchen ar lawer o adeiladau cyhoeddus ac maent yn cynhyrchu incwm neu gyfleoedd i gyfranogi. Mae siopau gwag y stryd fawr yn cael eu haddasu yn seiliedig ar anghenion cymdeithasol e.e. fel canolfannau’r argyfwng hinsawdd | • Mewnbwn gweithdai<br>• Canolfan Cydweithredol Cymru<br>• Hadau Newid CGGC<br>• Pub is the hub<br>• Sefydliad Plunkett<br>• The Guardian |
| **Byw gwyrdd ac iach** | Mae gan bawb yn y gymuned fynediad at aer glân, natur, trafnidiaeth gynaliadwy a fforddiadwy, wedi’i phweru gan ynni adnewyddadwy. Anogir teithio llesol gyda mynediad cyfleus at gynlluniau beic a dinasoedd cerddedadwy. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Cynnal Cymru<br>• Drosi Beiciau<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Prosiect Hadau Newid CGGC (yn seiliedig ar The Big Lemon)<br>• River Simple<br>• Trafnidiaeth Cymru |
| **Iachau natur a ninnau** | Mae cynllun gweithredu adfer natur, mwy o safleoedd gwarchodedig fel parciau cenedlaethol a phartneriaethau natur yn ymgysylltu preswylwyr, cymunedau a busnesau i ddiffinio camau gweithredu ar gyfer Cymru â bioamrywiaeth iach â chyfoeth o natur. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Adfyrio Cymru<br>• Daily Post<br>• Friends of Mangam Park<br>• Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |

| Teitl yr Hedyn | Disgrifiad | Ffynonellau a dolenni i gyfeiriadau ar-lein |
|---|---|---|
| **Rhannu cymunedol** | Mae gan bob cymuned lyfrgell o bethau lle gall pobl fenthyg pethau nad ydynt yn berchen arnynt, rhoi pethau nad ydynt yn eu defnyddio, a dysgu sgiliau DIY neu sgiliau cynaliadwy gan breswylwyr e.e. tyfu bwyd, atgyweirio dillad ac yn y blaen. | • Benthyg Cymru<br>• Hadau Newid EYST (prosiect CGGC)<br>• reSource CIC |
| **Trawsnewid i arferion atgynhyrchiol** | Mae ffermwyr yn cael eu cefnogi i uwchsgilio, hyfforddi a thrawsnewid i arferion atgynhyrchiol, e.e. mae ffarmio lludwymon cefnfor adfywiol ar yr arfordir i helpu i adfywio ecosystemau gyda dulliau cynhyrchu bwyd. | • Hadau Newid CGGC (yn seiliedig ar hadau anthroposen da)<br>• New Economics Foundation |
| **Ymateb hirdymor i argyfyngau niferus** | Mae ymatebion cymunedol i'r Hinsawdd ac adfer ar ôl Covid-19 wedi'u cydblethu, gan bontio datrysiadau tymor byr a hirdymor. Mae sectorau yn cydweithio i ailadeiladu economi werdd, mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gynyddu cydraddoldeb economaidd mewn cymdeithas a gwella lles. | • Survey input<br>• Covid-19 Mutual Aid UK<br>• Down to Earth<br>• North Wales Local Resilience Forum<br>• The National<br>• The Trussel Trust |
| **Bwyd sy'n cael ei Dyfu'n Lleol** | Mae bwyd yn cael ei dyfu'n lleol yn hygyrch ac yn cael ei dyfu mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae bwyd yn cael ei gynhyrchu gan lawer o fusnesau bach, elusennau a grwpiau llawr gwlad sydd wedi'u cysylltu'n dda. Mae hyn wedi arwain at ddal mwy o garbon, diogelwch bwyd a chymunedau iachach, a mwy cysylltiedig. | • Mewnbwn gweithdai<br>• Cynllun Gweithredu Datblygu Bwyd Sir Fynwy<br>• Ffermydd a Gerddi Cymdeithaso<br>• WWF (World Wildlife Fund) |

## …Tir y mae'r gymuned yn berchen arno



Ffotograff gan Zen Chung o Pexels



## …Aer glân a thrafnidiaeth werdd



Ffotograff gan by KBO Bike ar Unsplash

# 4. Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol 2030

**Y WELEDIGAETH A FFEFRIR AR GYFER Y DYFODOL, A GYNLLUNIWYD AR Y CYD GYDA CHYFRANOGWYR AR GYFER Y SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU YN 2030.**




Ffotograff gan RODNAE Productions o Pexels



## DULL O GYD-DDYLUNIO'R WELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol wedi'i siapio gan yr hadau newid, yr arolwg a'r adborth yn y gweithdai cyfranogol. Mae'r weledigaeth yn eang, er mwyn cynnwys cyfraniadau pawb a gyfranogodd mewn un lle.

Mae cynnwys safbwyntiau amrywiol wedi bod yn ganolog i'r broses. Mae'n bwysig cydnabod bod yna weledigaethau lluosog ac amrywiol ar gyfer y dyfodol, ac rydym yn croesawu hynny. Y bwriad yw i hyn ysgogi cefnogi mwy o waith creu gweledigaethau, sgyrsiau a chamau gweithredu a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y dyfodol.



**'Dylai iechyd a lles, newid yn yr hinsawdd, ac addysg gael eu blaenoriaethu oherwydd dyna bynciau a nodwyd yn y maniffesto a luniwyd gan bobl ifainc ar ddechrau 2021.'**

**'Polisïau sy'n ymwneud ag ardaloedd a lleoedd digidol, cadwraeth amgylcheddol, ac economi gylchol fydd y tueddiadau mwyaf perthnasol i'r sector gwirfoddol dros y degawd i ddod.'**

- Daniel Tow, Rheolwr Gwaith Ieuenctid ar gyfer Youth Cymru, Ymatebwr i'r Arolwg, Mehefin 2021

Ffotograff gan Alexandr Podvalny o Pexels

# Y Weledigaeth ar gyfer y Sector Gwirfoddol yng Nghymru 2030

## GWELEDIGAETH O'R DYFODOL A FFEFRIR GAN GYFRANOGWYR Y PROSIECT

Mae rôl y sector gwirfoddol a chymdeithas ddinesig yn cael ei gwerthfawrogi gan, ac mae wedi'i chysylltu i bob sector cymdeithasol arall. Mae cyfuniad o newid amgylcheddol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd wedi arwain at heriau sylweddol ac ail-lunio yn y sector gwirfoddol. Eir i'r afael fwyfwy ag amhariadau parhaus drwy gydweithrediadau sy'n cymylu'r ffiniau rhwng busnes, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Mae gwelliannau i safonau byw i'r mwyafrif o bobl, wedi'u cyfuno â ffocws ar les a symud tuag at economi a rennir wedi golygu bod mwy o bobl yn cynnig eu sgiliau a'u gwybodaeth i'r sector gwirfoddol.

Mae'r sector gwirfoddol wedi'i ymgorffori, mae'n cynrychioli Cymru aml-ddiwylliant, ac mae'n cael ei arwain mwy o'r bôn i'r brig ac ar lawr gwlad. Gall pobl ymgysylltu mewn prosiectau'n rhwydd drwy ystod o lwyfannau byd-eang a chymunedol a gallant gael mynediad cyflym at yr offerynnau ffisegol, ariannol a'r rhai sydd wedi'u harwain gan wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddarparu mentrau effaith uchel yn eu cymunedau – yn lleol ac yn rhithiol.




Darlun drwy garedigrwydd [Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru]
Eiconau gan Futurice [Futurice]

# Themâu'r Weledigaeth ar gyfer y Sector Gwirfoddol yng Nghymru 2030

## Y WELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL A FFEFRIR GAN GYFRANOGWYR Y PROSIECT

**A. Gyda'n gilydd, rydym wedi'n grymuso i wynebu newidiadau.** Gall pethau fod yn anrhagweladwy wrth i dueddiadau byd-eang newid, newidiadau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol cymhleth ochr yn ochr â mynd i'r afael â'r adferiad hinsawdd ac ecolegol. Byddwn yn helpu ein gilydd yn ein cymunedau drwy feddu ar yr offer cywir i ddatrys problemau a thrwy newid y ffordd rydym yn gweithio i gefnogi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol fel un.

**B. Mae ein byd yn ein dwylo ni.** Mae'r parciau a'r adeiladau a fwynhawn, y sgiliau a rannwn a'n storïau a'n diwylliannau – gallwn grynhoi'r rhain gyda'i gilydd i greu cymdogaeth lle mae pawb yn perthyn. Rydym yn dylunio a darparu ein gwasanaethau hanfodol mewn partneriaeth agos â'r Llywodraeth, y sectorau cyhoeddus a phreifat ac mae'r fframwaith hwnnw ar gyfer y gwaith tîm hwnnw yn nodi'r sector gwirfoddol fel partner hollbwysig. Rydym yn berchen ar rai o'n mannau cymunedol ac mae gennym lais ar sut maen nhw'n cael eu rheoli.

**C. Yng Nghymru, mae gan bawb ddigon.** Mae gan bawb fynediad at addysg, bwyd, gofal iechyd, tai a chyfleoedd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n sgiliau. Wrth i'n hanghenion sylfaenol gael eu cyflawni, mae gennym fwy o amser ac egni i gyfranogi mewn bywyd cymunedol a gwirfoddoli.

**D. Mae Technoleg Ddigidol yn gyfres dda o offer, i feithrin perthnasau a rhwydweithiau.** Gall y rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau negeseuo ein cysylltu i gyd i rannu gwybodaeth a sgiliau. Maent yn offer sy'n gallu cynnal ein cysylltiadau'n gadarn, gartref yn ein cymunedau ac yn y gwaith gyda phartneriaid. Mae'r offerynnau hyn yn ein galluogi i gydweithio ar lefel ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.

**E. Mae Cymru'n gwneud i chi deimlo'n dda.** Mae Cymru'n lle da i gael eich geni, mynd i'r ysgol, tyfu i fyny, gweithio a rhedeg busnes. Mae yna ardaloedd gwledig bendigedig i'w mwynhau a chyfleoedd da i wneud bywoliaeth heb 'fyw yn y lôn gyflym'. Mae pobl yn cael eu trin yn deg a pharchus sy'n arwain at fywydau iach. Mae diwylliant Cymru yn cael ei ddathlu gan bawb, gan barchu a gwerthfawrogi pob diwylliant sy'n rhan o Gymru. Mae ein cymdeithas yn edrych tuag allan, yn ymfalchïo yn ein gwreiddiau aml-ddiwylliant, ein cymdogion, a dysgu o'r hyn mae gwledydd eraill yn ei gyflawni i sicrhau llesiant.

**F. Mae gennym bartneriaethau newydd.** Rydym yn cydweithio i ddatrys problemau ac weithiau'n creu cynghreiriau annisgwyl, neu'n defnyddio ffyrdd o weithio nad ydynt wedi'u defnyddio o'r blaen. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd newydd i godi arian ar gyfer y gwasanaethau rydym eu heisiau, yn ogystal â rhannu amser a sgiliau gwerthfawr pobl.

**G. Gwybodaeth o Bobman.** Ni yw arbenigwyr ein cymunedau ein hunain ac os nad ydym yn gwybod rhywbeth, gallwn ofyn yn gyflym i rywun sydd yn gwybod. Gallwn drafod dros y rhyngrwyd gyda rhywun mewn gwlad wahanol, ynghylch heriau cymdeithasol, a llunio datrysiadau. Mae gallu rhannu gwybodaeth ar draws rhanbarthau ac ar hyd a lled y wlad yn ein helpu i rannu datrysiadau sy'n gweithio.

**H. Mwy o ffyrdd i greu cyfoeth.** Mae'r gwasanaethau cywir yn ein cymdogaethau yn cael eu hariannu mewn gwahanol ffyrdd. Rydym yn buddsoddi arian, yn derbyn grantiau gan elusennau neu fusnesau eraill sy'n edmygu ein gwaith, neu rydym yn cael ein talu gan ein partneriaid am y pethau a wnawn yn dda iawn, yn ogystal â derbyn cyllid cynaliadwy gan y Llywodraeth.

**I. Ein Plant a'n Pobl Ifanc yw Ein Dyfodol.** Rydym yn darparu addysg dda, cymorth i deuluoedd a chyfleoedd cyffrous i'n plant a'n pobl ifanc ddatblygu hunan-fri, sgiliau arweinyddiaeth ac entrepreneuraidd. Mae meysydd chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant, stiwardiaeth amgylcheddol, technoleg a chyfathrebu i gyd yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu talentau drwy chwarae, gweithio, hyfforddi a gwirfoddoli. Mae cyfleoedd â chyflog da i bobl ifanc ddatblygu eu gyrfaoedd yn y sector gwirfoddol, ac ysgogi newid, yn ogystal â chael ymdeimlad gwych o berthyn ac uchelgais.

**J. Yng Nghymru, rydym yn gwneud amser i wrando.** Mae ymgysylltiad dinasyddion yn darparu arweiniad er mwyn creu gwasanaeth ond hefyd yr offer er mwyn ei gyflenwi. Mae gwaith ymarferol bob amser yn cael ei ddilyn gan amser i adlewyrchu, addasu a mireinio'r naratif ar gyfer y rownd nesaf o waith sy'n cael ei ddarparu yn y sector gwirfoddol. Mae'r gwrando hwn yn cymryd amser, a hynny wrth ddatblygu perthnasau, a swyddogaethau i gynyddu dealltwriaeth rhwng cymunedau ac asiantaethau. Mae'n derbyn adnoddau priodol oherwydd mae'n elfen o fesur llwyddiant sy'n cael ei gwerthfawrogi ac mae'n ffurfio rhan o'n gwaith cynllunio strategol ar gyfer y tymor hwy.

# 5. Syniadau Camau Gweithredu Cyfranogwyr

## SYNIADAU CAMAU GWEITHREDU I WIREDDU'R WELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL



Ffotograff gan Kampus Production o Pexels



### Y DULL TRI GORWEL

Roedd y gweithgarwch hwn yn archwilio'r datganiadau o'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol a ffefrir mewn gweithdy cyfranogol i nodi cyfres o syniadau gweithredu i helpu i weithio at y dyfodol a ffefrir. Y nod oedd dechrau adeiladu pontydd gyda'n gilydd o'r 'lle rydym yn awr' i'r 'lle rydym eisiau bod'.

Mae'r datganiadau canlynol yn syniadau ar gyfer camau gweithredu y gall y sector gwirfoddol yng Nghymru eu cymryd i gyflawni gweledigaeth 10 mlynedd sydd wedi'i chyd-ddylunio. Roedd y gweithdy yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau gwirfoddol mwy, sefydliadau llawr gwlad amrywiol, swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiwn Elusennau, y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ogystal â chwaer sefydliad CGGC, SCVO.

### SYNIADAU GWEITHREDU CYFRANOGWYR

Pwysleisiwyd chwe phrif faes gan y cyfranogwyr i'r sector gwirfoddol weithredu ynddynt:

A. Cefnogi cynhwysiant a thegwch mynediad at dechnoleg er mwyn helpu i oresgyn y bwlch digidol
B. Ail-ddiffinio ystyr llwyddiant a sut y mesurir effaith a gwerth cymdeithasol
C. Datblygu cydweithrediad lleol, rhyngwladol a thraws-sector sy'n codi proffil y sector gwirfoddol ac sy'n adeiladu ar naratif cadarnhaol
D. Cefnogi prosesau cynhyrchu a chyflenwi seilwaith gwirioneddol sy'n canolbwyntio ar y gymuned
E. Grymuso unigolion a chymunedau i fod yn hunangynhaliol
F. Dysgu ac adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n effeithiol i'r sector gwirfoddol a chymunedau yn y pandemig, er mwyn atgyfnerthu'r sector gwirfoddol a chymdeithas yn ehangach

Ymhelaethir ar y rhain isod, i gynnwys manylion ychwanegol am syniadau ar gyfer camau gweithredu awgrymedig:

### A. I gefnogi mynediad teg at dechnoleg a helpu i oresgyn y bwlch digidol gall y sector gwirfoddol....

- **Addysgu i wella bywydau**: Addysgu pobl ar sut y gellir defnyddio technoleg i wella bywydau pobl ac ymateb i anghenion amrywiol e.e. i gefnogi mynediad, niwroamrywiaeth, llenwi bylchau addysgol, lleihau ynysiad cymdeithasol ac yn y blaen.
- **Galluogi cyfranogiad:** Defnyddio gwirfoddolwyr i gyfrannu i uwchsgilio a dangos i bobl sut i ddefnyddio offer digidol er mwyn iddynt allu cyfranogi mewn prosiectau dinesig, e.e. cynulliadau dinasyddion



Ffotograff gan Eliott Reyna ar Unsplash



## B. Er mwyn ailddiffinio beth yw llwyddiant a sut y mesurir effaith a gwerth cymdeithasol gall y sector gwirfoddol....

- **Cymryd yr awenau:** Wrth ddiffinio beth yw llwyddiant gan ddefnyddio mesurau o werth cymdeithasol a llesiant ehangach sy'n rhoi blaenoriaeth i'r effaith tymor byr a hirdymor ar bobl, cymuned a chymdeithas. Er enghraifft, llesiant neu storïau o brofiad byw fel dull o fesur llwyddiant.
- **Rhannu ac eirioli arfer gorau:** Drwy ei gwneud yn haws i fesur sut mae'r sector gwirfoddol yn cyfrannu at gymdeithas a darparu elw ar fuddsoddiad e.e. dangos sut i fesur yn erbyn nodau llesiant Comisiynydd y Dyfodol a dylanwadu ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru'n n diffinio a mesur llwyddiant.

## C. Drwy gefnogi cydweithrediad lleol, rhyngwladol a thraws-sector sy'n codi proffil y sector gwirfoddol ac sy'n adeiladu ar naratif cadarnhaol, gall y sector gwirfoddol....

- **Estyn allan i'r sector preifat:** Anfon gwahoddiadau at aelodau o'r sector preifat sydd o'r un anian, ar gyfer cydweithrediadau cyffrous sy'n ysgogi eu busnes a'u gwasanaethau gwirfoddol.
- **Rhannu arfer gorau yn rhyngwladol:** Pwysleisio cyflawniadau a storïau cadarnhaol y sector er mwyn iddynt gael eu cydnabod. Annog cynghreiriau a rhwydweithio rhyngwladol i helpu i nodi heriau cyffredin, rhannu a gwireddu syniadau da.
- **Adeiladu ar gydnabyddiaeth o'r sector gwirfoddol, er mwyn cynyddu dylanwad a chyllid:** Annog y Llywodraeth i ystyried y sector gwirfoddol fel partner arbenigol, a werthfawrogir drwy ddangos tystiolaeth a rhwydweithio o amgylch arbenigedd y sector e.e. yr elw profedig ar fuddsoddiad yn ystod y pandemig, cymunedau, iechyd a llesiant. Ceisio lleihau rhwystrau at gyllid a phartneriaethau, yn benodol cefnogi sefydliadau llawr gwlad amrywiol.

## D. I gefnogi proses wirioneddol o gydweithredu, cyd-gynhyrchu a chyd-gyflenwi seilwaith sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gall y sector gwirfoddol.....

- **Rhannu yn ein cymunedau:** Gwella'r broses o rannu adnoddau ac asedau yn y gymuned drwy hwb er mwyn galluogi defnydd mwy amrywiol e.e. llyfrgell o bethau, ysgol, canolfan gymunedol
- **Ffynonellau cyfoeth lleol, hyblyg:** Annog cydweithrediad a dialog rhwng arweinwyr ar bob lefel o gymdeithas, er mwyn cyflenwi gwasanaethau ar y cyd sy'n gweithio i bobl a chynhyrchu ffynonellau newydd o gyfoeth lleol.
- **Cydnabod gwerth sefydliadau gwirfoddol llawr gwlad amrywiol a'u cefnogi:** Cysylltu â sefydliadau llawr gwlad amrywiol a'u cynnwys mewn penderfyniadau yn y ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, er enghraifft, dehongli, ar lafar ac yn y blaen. Eu cefnogi drwy brosesau cyllido tryloyw, hygyrch, atebol a chyfartal.

- **Cynyddu cynhwysiant a chynrychiolaeth y cymunedau a wasanaethwn:** Gweithredu i gynyddu cynrychiolaeth amrywiol a phrofiad byw ar draws y gwahanol lefelau o sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys Uwch Reolwyr a Bwrdd Ymddiriedolwyr. Ehangu rhwydweithiau i gynnwys cyfeillion beirniadol a chreu amgylcheddau lle mae safbwyntiau amrywiol yn cael eu croesawu h.y. croesawu, gwrando a gweithredu ar eu mewnbwn.

## E. Er mwyn grymuso unigolion a chymunedau i fod yn hunangynhaliol gall y sector gwirfoddol....

- **Helpu pawb i deimlo'n ddiogel a chartrefol:** Cefnogi'r ymdrech i greu Cymru groesawgar, gynhwysol a llawn anogaeth, lle gall pawb ffynnu i'r fersiwn orau o'u hunain a chyfrannu eu sgiliau e.e. drwy ddatblygu seilwaith perthyn.
- **Cynyddu tryloywder a mynediad:** Darparu mynediad i gymunedau at wybodaeth, sgiliau a hyfforddiant er mwyn iddynt allu bod yn fwy gwydn wrth gyflawni eu nodau. Rhannu gwybodaeth yn agored er mwyn sicrhau bod yr offer cywir ar gael ar yr adeg gywir.
- **Symud pŵer i gymunedau:** Datblygu seilwaith sy'n rhoi mwy o bŵer i gymunedau, sy'n galluogi i gyfoeth ac adnoddau gael eu cyfeirio'n hyblyg i le mae ei angen fwyaf e.e. oddi wrth fentrau aflwyddiannus a thuag at sefydliadau llawr gwlad sy'n cael yr effaith fwyaf.

## F. Er mwyn dysgu ac adeiladu ar beth sydd wedi gweithio'n dda i'r sector gwirfoddol a chymunedau yn y pandemig, mewn ffordd sy'n atgyfnerthu'r sector gwirfoddol a chymdeithas ehangach, gall y sector gwirfoddol....

- **Adolygu a dysgu:** O beth sydd wedi gweithio'n dda yn y pandemig i'r sector gwirfoddol, adeiladu ar gryfderau; ysbryd cymunedol, y defnydd gwell o dechnoleg a chyfathrebu rhwng partneriaid, atgyfnerthu partneriaethau a ffurfiwyd a/neu ddefnyddio egni gwirfoddolwyr newydd.
- **Tystiolaeth o elw ar fuddsoddiad yn y sector gwirfoddol:** Yn ystod y pandemig, mae'r sector gwirfoddol wedi profi ei werth. Datblygu tystiolaeth glir o elw ar fuddsoddiad yng nghymorth lleol, effeithiol iawn y sector – nid yn unig i unigolion, ond i deuluoedd, cymunedau a chymdeithas.
- **Meithrin hyder a safle'r sector:** Gall y sector gwirfoddol fod yn hyderus ei fod wedi dangos ei werth yn ystod y pandemig, mae wedi bod yn hyblyg a rhagweithiol. Mae mewn sefyllfa dda i herio rhagdybiaethau sectorau eraill a'i rôl mewn cysylltiad â'r Llywodraeth, fel partner arbenigol neu ddarparwr datrysiadau er enghraifft.



# 6. Y Camau nesaf a chymryd rhan

## CYDWEITHIO I WIREDDU'R WELEDIGAETH



Ffotograff gan Yan Krukov o Pexels

## SUT Y GALLWCH GYMRYD RHAN

Ar hyd y daith hon gofynnwyd i ni sut y gall unigolion a sefydliadau helpu gyda'r gwaith hwn, cymryd rhan a chael effaith ar y dyfodol. Dylech ystyried yr adroddiad hwn fel adnodd i ysbrydoli, hysbysu a dechrau mwy o fentrau cyffrous ar draws cymunedau.

Mae croeso i chi arwain ar y camau gweithredu awgrymedig. Os nad ydych yn siŵr lle i ddechrau, dyma rai syniadau yn seiliedig ar sefydliad a diddordeb:

<table>
<tr><th>Mae gennyf ddiddordeb mewn…</th><th>Rwyf yn y sector gwirfoddol</th><th>Rwyf yn y sector cyhoeddus</th><th>Rwyf yn y sector preifat / sector arall</th></tr>
<tr><td>…darparu mewnbwn neu adborth</td><td colspan="3">Cynigiwch adborth neu syniadau am gynnwys yr adroddiad a/neu broses y prosiect. Rydym yn awyddus iawn i glywed gennych!<br>Cyswllt: Tîm polisi CGGC am 'Ymarfer y Dyfodol' yn help@wcva.cymru</td></tr>
<tr><td>…Sut y gall fy sefydliad helpu a/neu gymryd rhan</td><td colspan="3">A. SA. Lledaenu'r gair a hau syniadau! Rhannwch yr adroddiad hwn gyda'ch cymuned, rhwydweithiau neu sefydliad er mwyn i chi allu ei drafod.<br><br>B. Cysylltu. Mae'r hadau newid yn seiliedig ar syniadau a mentrau go iawn sydd ar waith yn awr. Os gwelwch hedyn yr hoffech ddysgu ohono, ei dyfu neu gysylltu ag ef, yna edrychwch ar y ffynonellau. Estynnwch allan a dechrau sgwrs gyda'r sefydliad perthnasol.<br><br>C. Meddwl yn strategol. Cyn cyfarfod strategol nesaf eich sefydliad, gofynnwch i'r cyfranogwyr ddarllen yr adroddiad hwn ac ystyried:<br>• Pa rannau o'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol, yr hadau neu'r camau gweithredu awgrymedig sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth a'n cenhadaeth? A oes unrhyw beth y byddem yn ei ychwanegu?<br>• Pa gamau gweithredu awgrymedig y gallwn gyfrannu atynt a sut?<br>• Pa gamau gweithredu ychwanegol sydd heb eu cynnwys y gallwn eu cymryd?<br>• A oes yna unrhyw adnoddau neu rwydweithiau y gallwn gysylltu â hwy?<br><br>Ch. Dechrau gwneud cynllun er mwyn i chi allu gweithredu ar eich syniadau. Estynnwch allan a rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu parhau â'r sgwrs.</td></tr>
</table>



<table>
<tr><th>Mae gennyf ddiddordeb mewn…</th><th>Rwyf yn y sector gwirfoddol</th><th>Rwyf yn y sector cyhoeddus</th><th>Rwyf yn y sector preifat / sector arall</th></tr>
<tr><td rowspan="3">…Sut y gall fy sefydliad helpu a/neu gymryd rhan</td><td rowspan="2">• Creu Partneriaeth. Nodi sefydliad/au yn y sector cyhoeddus a phreifat sy'n alinio fwyaf â'ch nodau a'ch gwerthoedd.<br>• Cydweithio: Estyn allan a dechrau sgwrs am sut y gallech gydweithio ar eich nodau cyffredin i gefnogi un o'r camau gweithredu.</td><td>• Adlewyrchu ar beth mae'r weledigaeth a'r camau gweithredu yn eu golygu i'ch cyd-destun chi. Nodwch fentrau yn eich sefydliad a allai gefnogi'r weledigaeth yn y dyfodol neu'r camau gweithredu a nodwyd<br>• Estyn allan i sefydliadau gwirfoddol cysylltiedig a rhoi gwybod iddyn nhw, trafodwch sut y gallech gydweithio.</td><td>• Adlewyrchu ar beth mae'r weledigaeth a'r camau gweithredu yn eu golygu i'ch cyd-destun chi. Nodwch fentrau yn eich sefydliad a allai gefnogi'r weledigaeth yn y dyfodol neu'r camau gweithredu a nodwyd.<br>• Estyn allan a thrafod sut y gallech gydweithio ar eich nodau cyffredin i gefnogi un o'r camau gweithredu.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ystyriwch y rôl y gallech ei chwarae yn cynyddu dinasyddiaeth weithgar a gwirfoddoli. E.e. darparu amser â thâl, lleihau amser gweithio cyflogeion, lobio ar ran y sector gwirfoddol, darparu cyllid, cydweithio ar nod cyffredin, cyfnewid sgiliau neu gefnogi uwchsgilio ac yn y blaen.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Estyn allan i sefydliadau gwirfoddol llawr gwlad yn eich cymuned leol. Dysgu am eu heriau, eu syniadau a'u nodau. Gwrando a gweld a all eich sefydliad gydweithio gyda hwy neu eu cefnogi.</td></tr>
<tr><td>…y broses, yr offer a'r dulliau</td><td colspan="3">A. Lawrlwytho'r pecynnau offer. Am fwy o gefndir am y broses neu i arbrofi â'r offer a'r dulliau eich hun, mae'r pecynnau offer yn darparu canllawiau hwyluso a thempledi i grwpiau:<br>• Cliciwch yma ar gyfer 'Pecyn Offer Adeiladu Dyfodol Gwell' CGGC a SOIF<br>• Cliciwch yma ar gyfer 'Pecyn Offer Creu Dyfodol Darbodus 2.0'<br><br>B. Dysgu gan eraill. Darllenwch y blogiau hyn a gwrando ar y podlediadau am gymunedau eraill yng Nghymru sydd wedi defnyddio'r Pecyn Offer Adeiladu Dyfodol Gwell i ddysgu mwy am sut y gallech eu defnyddio yn lleol.<br>• Cliciwch i ddarllen: Blog Better Futures Community Foresight Project blog<br><br>C. Siaradwch â ni. Cysylltwch i gael y sgwrs gyntaf am sut y gallai'r offer a'r dulliau ystyried y dyfodol hyn helpu eich sefydliad neu gymuned.<br>Cyswllt: Tîm polisi CGGC ynghylch 'Ymarfer y Dyfodol' yn help@wcva.cymru<br>Futurice UK am 'Ymarfer y Dyfodol' co-create@futurice.co.uk</td></tr>
</table>

## Y CAMAU NESAF ER MWYN RHOI BYWYD I'R WELEDIGAETH

Bydd aelodau CGGC a Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn defnyddio allbynnau'r prosiect yn awr i hysbysu eu gwaith cynllunio strategol, nodi cyfleoedd i gefnogi'r sector gwirfoddol a chyfrannu at y gwaith o gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol a rennir yn ystod y 5 mlynedd nesaf, yn unol â'u rôl a'u cenhadaeth eu hunain.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol hefyd i sefydliadau eraill i helpu i gefnogi eu syniadau strategol hwy a darparu enghraifft arall o sut y gellir defnyddio'r Pecyn Offer Adeiladu Dyfodol Gwell yn ymarferol.



Ffotograff gan Sora Shimazaki o Pexels



# 7. Diolchiadau

## DIOLCH I BAWB SYDD WEDI CYFRANNU I'R PROSIECT HWN.



Ffotograff gan Anna Shvets o Pexels

Rydym wir yn gwerthfawrogi amser, gonestrwydd ac adborth trylwyr pawb a gyfrannodd. Mae eich mewnbwn wedi bod yn gyfraniad amhrisiadwy i'r gwaith hwn, ac edrychwn ymlaen at ddatblygu'r sgyrsiau, yr hyn a ddysgwyd a'r cysylltiadau cadarnhaol yn y dyfodol.

## CYFRANOGWYR

- **Dyfodol CGGC - arolwg cymuned sector gwirfoddol Cymru, Mehefin-Gorffennaf 2021:** Mae cynnwys y prosiect a'r adroddiad yn seiliedig ar gyfraniadau arolwg gan gyflogeion o 50 o wahanol sefydliadau mewn rolau amrywiol gan gynnwys Uwch aelodau o staff ac aelodau'r bwrdd o ystod eang o safbwyntiau a lleoliadau'r sector gwirfoddol ar hyd a lled Cymru. Dylid nodi bod y cyfranogwyr yn cynrychioli eu safbwyntiau unigol eu hunain yn hytrach na siarad ar ran eu sefydliad.
- Cyfres Gweithdai Cyfranogol, Mai-Gorffennaf 2021
- 6 chyfweliad manwl, Mai-Mehefin 2021

## CYDWEITHREDWYR ALLWEDDWOL

- Darparodd tîm Uwch Reolwyr CGGC adborth ar adegau allweddol yn y prosiect a byddant yn defnyddio'r adroddiad hwn i hysbysu adolygiad strategaeth 5 mlynedd CGGC yn 2021.
- Matthew Brown, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, CGGC
- John Gallanders, Prif Swyddog, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam (AVOW)
- Chris Lines, Cyfathrebu, Cynghorydd Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Anweithredol, CGGC
- Ruth Marks, Prif Swyddog Gweithredol, CGGC
- Sara Selleck, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau a Marchnata, CGGC
- Judith Stone, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, CGGC

## CYFRANOGWYR ERAILL

- Darluniau drwy garedigrwydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Taylor Edmonds, Bardd Preswyl ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe
- Matthew Edwards, Prawf-ddarllenydd yr adroddiad, Futurice
- Hannah Rawlinson, Prawf-ddarllenydd yr adroddiad, Futurice



**Myfyrdodau i gloi – Ailystyried y Dyfodol**

Ni allwn ni edrych tua'r dyfodol heb gydnabod y gorffennol a chadw lle amdano. Mae'r pandemig wedi bod yn gyfnod heriol dros ben ac mae'n parhau i fod yn heriol yn enwedig ar gyfer y rhai y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt yn anghymesur. Bydd angen ymdrech, cydweithredu, a chymorth ar draws y gymdeithas i sicrhau adfer a dyfodol gwell.

Hoffen ni ddiolch i Taylor Edmonds, Bardd Preswyl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe, am ddal profiad y cyfnod hwn ochr yn ochr â gweledigaeth lawn obaith yn ei cherdd o'r enw 'Reconsidering Future'.




Ffotograff gan Marcin Jozwiak ar Unsplash

# Reconsidering Future

Let's rewrite the story.
In this version, your mother doesn't take a second job,
no 50-hour week and empty seat at the table.
Without the weight of night shifts on her back
she goes to college, starts to dream
of soil-stained hands, a community garden,
of reading stories to the sleepy rhythm of your breath.

Your next-door neighbour lives.
His body lighter, he starts to paint, fills the walls
with hues of watercolour. The haunting
eviction and red-lettered final warnings
never come through the letterbox.
His children know only how to be children,
full-bellied, planning a trip to space,
to build a secret den in the treetops.



Ffotograff gan Monstera o Pexels

What kind of home is Wales
when a third of young people are living in poverty?
Let's change the narrative, break the cycle
while our toes are curled at the brink.
Reverse queues for food banks,
end job insecurity, rising unemployment,
homelessness, the long wait for welfare
cheques that barely make ends meet.

We may fail and stumble,
but imagine a country
where everyone is paid enough to truly live.
Without the fear of losing it all,
who could you become?
Freedom to imagine, experiment, move
with purpose, defined by more
than a job title, possessions, productivity.

When we own our bodies,
I want you to just lay here in the grass
and breathe.

- Taylor Edmonds, Bardd Preswyl ar gyfer
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru,
Sophie Howe
Dolen i ddarlleniad y gerdd



Ffotograff gan Chang Hsien ar Unsplash

# 8. Ôl-nodiadau



Ffotograff gan RODNAE Productions o Pexels



## 1. CYFLWYNIAD


1 **Futurice,** *Lean Futures Creation: A Free Toolkit for Co-creative Futures Thinking*, https://hello.futurice.com/lean-futures-creation-toolkit

2 **Kelly Ann Mckercher** (20.07.2020) *Beyond Sticky Notes: Co-design for real: Mindests, Methods and Movements*, Thorpe-Bowker Identifier Services Australia

3 **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

4 **Llywodraeth Cymru** (05.2021) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr hanfodion, 3ydd Argraffiad*, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-06/well-being-of-future-generations-wales-act-2015-the-essentials-2021.pdf

5 **Design Council** (22.04.21) *Beyond Net Zero: A Systemic Design Approach*, https://www.designcouncil.org.uk/resources/guide/beyond-net-zero-systemic-design-approach

6 **Society Centred Design**, (30.03.2020) https://societycentered.design/

7 **Design Justice Network Principles** (2018) https://designjustice.org/read-the-principles

8 **UNESCO**, *Futures Literacy: An Essential Competency for the 21st Century*, https://en.unesco.org/futuresliteracy/about

9 **Futurice,** *Lean Futures Creation: A Free Toolkit for Co-creative Futures Thinking*, https://hello.futurice.com/lean-ftures-creation-toolkit

10 **Anna Nicholl and Russell Todd, WCVA** (05.2018) *Grymuso Cymunedau*, https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Empowering-Communities-Grymuso-Cymunedau.pdf

11 **Llywodraeth Cymru** (2014) *Third Sector Scheme*, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/third-sector-scheme-2014.pdf

12 **CGGC,** *Ein stori*, https://wcva.cymru/cy/ein-stori/

13 **Grow Social Capital CIC** (30.06.2021) https://twitter.com/growsocialcapit/status/1410255555072073735

14 **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol,** *Nodweddion Gwarchodedig*, https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics


## 2. GWYBODAETH AM YR YMCHWIL


15 **Dr. Louisa Petchey, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru** (02.2020) *Tri Gorwel: pecyn cymorth i'ch helpu i feddwl a chynllunio ar gyfer y hirdymor*, https://www.futuregenerations.wales/cy/resources_posts/pecyn-cymorth-tri-gorwel/

16 **CGGC,** *Gweinidog yr Amgylchedd a'r sector yn trafod adferiad gwyrdd a theg*, https://wcva.cymru/environment-minister-and-sector-discuss-green-and-just-recovery/

17 **BBC** (22.04.21) *Welsh election: 'Voices of disabled people must be heard'*, https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56831020

18 **Ymchwil Senedd,** (22.03.2021) *Beth mae Cymru yn ei wneud i ddileu gwahaniaethu ar sail hil?*, https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/beth-mae-cymru-yn-ei-wneud-i-ddileu-gwahaniaethu-ar-sail-hil/

19 **Llywodraeth Cymru** (21.07.21) *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol*, https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol
20 **The National** (22.05.21) *'What next for the Welsh Goverment's new climate change super-ministry?'*, https://www.thenational.wales/news/19320536.next-wales-new-climate-change-super-ministry/
21 **The National** (21.05.21) *UK government's Plan for Wales will undermine devolution says Labour MP Wayne David*, https://www.thenational.wales/news/19319737.tory-plans-will-undermine-leave-wales-behind-wayne-david/?ref=ar
22 **BBC** (09.03.2021) *Immigration: Post-Brexit plan 'doesn't work for Wales'*, https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51792690
23 **Wales Online** (10.04.21) *Welsh study on lockdown habits and environment*, https://www.thenational.wales/news/19223504.welsh-study-lockdown-habits-environment/
24 **Daily Post** (15.04.21) *Pandemic makes us more conscious about impact on environment*, https://www.dailypost.co.uk/whats-on/shopping/pandemic-makes-more-conscious-impact-20389947
25 **Daily Post**, (21.03.2021) *The lockdown litter pickers tackling the rising blight on North Wales during a pandemic*, https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/lockdown-litter-pickers-tackling-rising-20068675
26 **Business News Wales** (30.04.2021) *Long-term Sustainable Difference to Nature Recovery Across Powys*, https://businessnewswales.com/long-term-sustainable-difference-to-nature-recovery-across-powys/
27 **The National** (20.05.21) *Welsh Secretary Simon Hart calls for collaboration over 'Plan for Wales'*, https://www.thenational.wales/news/19316141.welsh-secretary-simon-hart-calls-collaboration-plan-wales/
28 **The National** (22.05.21) *What next for the Welsh Goverment's new climate change super-ministry?*, https://www.thenational.wales/news/19320536.next-wales-new-climate-change-super-ministry/
29 **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** (2021) *Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol*, https://www.futuregenerations.wales/cy/work/cymrueindyfodol/
30 **Gethin Rhys, Julian Rosser, Susie Ventris-Field. CMRC, Cytûn, CGGC, Llywodraeth Cymrut** (2020) *Ymateb i argyfwng yr hinsawdd Llesiant Cymru yn y Dyfodol: edrych y tu hwnt i Brexit*, https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/06/Ymateb-i-argyfwng-yr-hinsawdd__.pdf
31 **The Guardian** (27.04.2021) *New homes in poorer areas of England and Wales face undue flood risk*, https://www.theguardian.com/environment/2021/apr/27/new-homes-in-poorer-areas-of-england-and-wales-face-undue-future-flood-risk
32 **RSPB** (14.05.2021) *New report shows Wales close to bottom of international league table for nature*, https://www.rspb.org.uk/about-the-rspb/about-us/media-centre/press-releases/new-report-shows-wales-close-to-bottom-of-international-league-table-for-nature/
33 **Llywodraeth Cymru** (28.09.2020) *Cymru fwy Cyfartal: y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol*, https://llyw.cymru/cymru-fwy-cyfartal-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol-html
34 **Senedd Cymru** (08.2021) *Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig*, https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13403/cr-ld13403-e.pdf





35 **GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru,** *Gwybodaeth a Chyngor COVID-19 i Gefnogi Cyflogwyr a Gweithwyr*, https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cymru-iach-ar-waith/gwybodaeth-a-chyngor-covid-19-i-gefnogi-cyflogwyr-a-gweithwyr/
36 **MIND** (23.05.2021) *New Survey reveals the need for long-term focus on mental health support in Wales*, https://www.mind.org.uk/news-campaigns/news/new-survey-reveals-the-need-for-long-term-focus-on-mental-health-support-in-wales/
37 **Victoria Boelman, Sefydliad Young** (06.2021) *Volunteering and wellbeing in the pandemic Part II: Rapid evidence review*, https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/06/Volunteering-and-wellbeing-in-the-pandemic.-Part-2-Rapid-evidence-review.pdf
38 **Amgueddfa Cymru,** *Ein datganiad i'r ymgyrch Black Lives Matter*, https://amgueddfa.cymru/amdano/bywydau-du-o-bwys/?_ga=2.71609043.1782824458.1629990046-1703736184.1627655486
39 **Bricks** (18.11.2020) *My City, My Shirt Celebrates The Rich Culture of Cardiff While Tackling Racism in Football*, https://bricksmagazine.co.uk/2020/11/18/my-city-my-shirt-celebrates-cardiff-tackles-racism-in-football/
40 **Hanes Pobl Dduon Cymru** (2021) *Black History Wales Receives the Queen's Award for voluntary service*, https://bhmwales.org.uk/race-council-cymru-black-history-wales-cardiff-receives-the-queens-award-for-voluntary-service/
41 **Wales Online** (14.01.2021) *The people who are launching Wales' first national LGBTQ magazine - during a pandemic*, https://www.walesonline.co.uk/whats-on/whats-on-news/people-who-launching-wales-first-19624767
42 **Dim Hiliaeth Cymru,** Hafan, https://zeroracismwales.co.uk/?lang=cy
43 **Hadau Anthroposen Da**, *Greenwave: The Future of Ocean Farming*, https://goodanthropocenes.net/green-wave-the-future-of-ocean-farming/
44 **Wales 247** (12.05.2021) *Minecraft set to influence future design of new cancer centre*, https://www.wales247.co.uk/minecraft-set-to-influence-future-design-of-new-cancer-centre
45 **Daily Post** (20.05.2021) *How microchips and seagull-proof sacks will be part of new plan to get people recycling more*, https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/how-microchips-seagull-proof-sacks-20628862
46 **Daily Post** (03.05.2021) *How North Wales business' incredible invention could help replenish polar ice caps*, https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/how-north-wales-business-could-20495890
47 **Business Live** (19.03.2021) *Innovation is key to a competitive economy but Wales is falling behind*, https://www.business-live.co.uk/opinion-analysis/innovation-key-competitive-economy-wales-20211191
48 **Sefydliad Bevan, The National** *(01.03.2021) Use Covid-style innovation to tackle Welsh poverty*, https://www.thenational.wales/opinion/19124867.use-covid-style-innovation-tackle-welsh-poverty/
49 **Prifysgol Bangor** (11.02.2021) *Dygnwch ac arloesedd busnesau yn dangos y ffordd i Ogledd Cymru*, https://www.bangor.ac.uk/cy/newyddion/dygnwch-ac-arloesedd-busnesau-yn-dangos-y-ffordd-i-ogledd-cymru

50 **Daily Post** (27.12.2019) *Drone shepherds who watch their flocks at height*, https://www.dailypost.co.uk/news/local-news/drone-sheep-flocks-farmers-sheepdog-17478918
51 **BT** (09.2020) *Smart rural: The utilisation of digital infrastructure by the agriculture and tourism sectors in rural Wales*, https://www.bt.com/bt-plc/assets/documents/about-bt/bt-uk-and-worldwide/bt-in-the-uk-and-ireland/research-and-reports/smart-rural-wales-english.pdf
52 **Llywodraeth Cymru** (01.2020) *Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025*, https://llyw.cymru/croeso-i-gymru-blaenoriaethau-ir-economi-ymwelwyr-2020-i-2025
53 **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru,** *Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020*, https://futuregenerations2020.wales/welsh
54 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili,** *Creoso*, https://www.caerphillypsb.co.uk/cy/
55 **GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru,** *Public Health Wales Long term strategy 2018-30: Working to achieve a healthier future for Wales*, http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Long%20Term%20Strategy.pdf
56 **Senedd Cymru, Ymchwil y Senedd** *(17.06.2021) Beth all Incwm Sylfaenol Cyffredinol ei olygu i Gymru?, https://research.senedd.wales/research-articles/what-might-a-universal-basic-income-mean-for-wales/*
57 **Llywodraeth Cymru, Addysg Cymru** (21.05.2021) *Ymgynghoriadau ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru*, https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ymgynghoriadau-ar-ganllawiau-ychwanegol-cwricwlwm-i-gymru
58 **BBC news** (30.08.2020) *School curriculum in Wales: Diverse talent 'must be celebrated'*, https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53498343
59 **Economics Observatory** (07.10.2020) *How is coronavirus affecting the Welsh economy?*, https://www.economicsobservatory.com/how-coronavirus-affecting-welsh-economy
60 **Daily Post** (16.06.2021) *Unemployment could reach scale not seen in Wales for decades, warns economy minister*, https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/unemployment-could-reach-scale-not-18430629
61 **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru,** *Sgiliau drwy Argyfwng: Uwchsgilio ac (Ail) Hyfforddi ar gyfer Adferiad Gwyrdd yng Nghymru*, https://www.futuregenerations.wales/cy/resources_posts/sgiliau-drwy-argyfwng-uwchsgilio-ac-ailhyfforddi-ar-gyfer-adferiad-gwyrdd-yng-nghymru/
62 **CBI** (26.06.2020) *Jobs and training must be top priority for economic recovery in Wales – CBI urges Welsh First Minister*, https://www.cbi.org.uk/media-centre/articles/jobs-and-training-must-be-top-priority-for-economic-recovery-in-wales-cbi-urges-welsh-first-minister
63 **Llywodraeth Cymru** (08.07.2021) *Cyrsiau coleg newydd ar gyfer swyddi yn yr economi werdd*, https://gov.wales/new-college-courses-jobs-green-economy
64 **Sefydliad Bevan** (13.07.2020) *Remote working could bring new opportunities to Wales*, https://www.bevanfoundation.org/views/remote-working-could-bring-new-opportunities-to-wales/
65 **Lizzie Swafield, Yr Athro David Egan, Oxfam Cymru,** *The Welsh Doughnut 2020: A framework for environmental sustainability and social justice*, https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620979/rr-welsh-doughnut-2020-sustainability-social-justice-010320-en.pdf?sequence=1
66 **WEALL (Wellbeing Economy Alliance),** *WEALL Cymru - Wales*, https://wellbeingeconomy.org/cymru-wales
67 **Business News Wales** (27.04.2021) *Welsh Cities Set to See Fastest Employment Growth in 2021*, https://businessnewswales.com/welsh-cities-set-to-see-fastest-employment-growth-in-2021/
68 **The Leader** (18.02.2021) *Wrexham: Coronavirus leads to surge in social enterprises in North Wales*, https://www.leaderlive.co.uk/news/19099588.wrexham-coronavirus-leads-surge-social-enterprises-north-wales/
69 **Social Enterprise UK,** *2020 – a view from across the nations*, https://www.socialenterprise.org.uk/2020-a-view-from-across-the-nations/

## 3. HADAU NEWID

70 **Hadau Anthroposen Da,** *Shaping the Future*, https://goodanthropocenes.net/what-are-seeds/
71 **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol,** *Nodweddion Gwarchodedig*, https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics

## CYFEIRIADAU ERAILL

- **Futurice,** *Lean Futures Creation: A Free Toolkit for Co-creative Futures Thinking*, https://hello.futurice.com/lean-ftures-creation-toolkit
- **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru,** *Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020*, https://futuregenerations2020.wales/english
- **Taylor Edmonds, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** (26.07.2021) *Taylor Edmonds explores what UBI could do for Wales in her poem, Reconsidering Future*, https://www.youtube.com/watch?v=749lhGFwLdA
- **CGGC, SOIF** (2021) *ADEILADU DYFODOL GWELL: Pecyn cymorth*, https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2021/03/ADEILADU-DYFODOL-GWELL-Pecyn-cymorth.pdf
- **Aimee Parker, CGGC** (2021) *Dyfodol Gwell Cymru: Prosiect Rhagolwg Cymunedol*, https://wcva.cymru/cy/projects/dyfodol-gwell-cymru-prosiect-rhagolwg-cymunedol/
- **Aimee Parker, CGGC** (27.04.2021) 'Allwch chi ddim bod yn rhywbeth allwch chi ddim ei weld', https://wcva.cymru/cy/views/allwch-chi-ddim-bod-yn-rhywbeth-allwch-chi-ddim-ei-weld/



futurice

WcVA
CGGC

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ffotograff gan Pixabay o Pexels